

CYMDEITHAS EDWARD LLWYD

# Y Naturiaethwr



Cyfres 2

Rhif 11

Nadolig 2002



## *Lluniau'r Clawr*

### *Clawr blaen:*

*Trwyn yr As (Nash Point). Morgannwg.*

*Creigiau gwaddodol, Lias (Furasig)*

### *Clawr ôl:*

*Cystadleuaeth plygu gwrych, Afonwen, Sir Fflint*

## *Lluniau: Goronwy Wynne*

## **Cymdeithas Edward Llwyd**

Sefydlwyd Cymdeithas Edward Llwyd yn 1978 a hi yw Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru. Enwir y Gymdeithas ar ôl Edward Llwyd, a anwyd yn 1660 ac a alwyd yn ei gyfnod "y naturiaethwr gorau yn awr yn Ewrop".

Cymraeg yw iaith y Gymdeithas, ac y mae dros 1,200 o aelodau led-led Cymru a thu hwnt. Prif ddibenion y Gymdeithas yw astudio byd natur, yn cynnwys planhigion, anifeiliaid a chreigiau, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth o amgylchedd a threftadaeth naturiol Cymru ac ymgyrchu dros eu gwarchod. Mae'r Gymdeithas yn:

- trefnu cyfarfodydd awyr-agored ym mhob rhan o Gymru, i astudio ac i gerdded
- cynnal cyfarfodydd gwaith cadwriaethol
- trefnu darlithoedd a chyfarfodydd cymdeithasol
- cynnal pabell ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol
- cyhoeddi Y Naturiaethwr ddwywaith y flwyddyn
- cyhoeddi Cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn
- cyhoeddi llyfrau ar enwau Cymraeg creaduriaid a phlanhigion
- cynnig grantiau (£600) bob blwyddyn am waith gwreiddiol ym myd natur
- lleisio barn gyhoeddus ar faterion amgylcheddol
- trefnu pris gostyngol gyda nifer o siopau dillad ac offer awyr agored

Mae aelodaeth yn agored i bawb o bob oed sydd â diddordeb ym myd natur.

Dyma'r tâl blyneddol:

Unigolyn - £10

Teulu - £12

Myfyrwyr, pensiywr, di-waith - £6

I ymaelodi neu am ragor o fanylion cysylltwch â'r Ysgrifennydd Aelodaeth:

Iwan Roberts, 3 Rhes y Rheilffordd, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 4LJ.

# Y Naturiaethwr

Cyfes 2

Rhif 11

Nadolig 2002

*Golygydd:* Goronwy Wynne, "Gwylfa",  
Licswm, Treffynnon, Sir Fflint CH8 8NQ.

**Cymdeithas Edward Llwyd 2002 – 03**

*Llywydd:* Dafydd Davies

*Cadeirydd:* Goronwy Wynne

*Is-gadeirydd:* Harri Williams

*Trysorydd:* Ifor Griffiths

*Ysgrifennydd:* Megan Bevan, "Y Blewyn  
Glas", Porthyrhyd, Sir Gaerfyrddin  
SA32 8PR.

*Ysgrifennydd Aelodaeth:* Iwan Roberts,  
3 Rhes y Rheilffordd, Rhuthun,  
Sir Ddinbych LL15 1BT.



Y Naturiaethwr, Cyfes 2, Rhif 11, Nadolig  
2002.

Cyhoeddir Y Naturiaethwr gan Gymdeithas  
Edward Llwyd.

Dyluniwyd gan: MicroGraphics

Argraffwyd gan: Gwasg Dwyfor

Mae hawlfraint pob erthygl yn eiddo i'r awdur.

## Cynnwys

tudalen

<b>Gair gan y Golygydd</b> <i>Goronwy Wynne</i>	3
<b>Llên y llysiâu</b> <i>Maldwyn Thomas</i>	4
<b>Y Byd Drwy Lygaid Uwchfioled</b> <i>Dr Dylan Gwynn-Jones</i>	6
<b>Colli Bioamrywiaeth</b> <i>Dr Hefin Jones</i>	8
<b>Adar Drycin Manaw ar Enlli</b> <i>Peter Hope Jones</i>	12
<b>Cynefin</b> <i>Gruff Ellis</i>	14
<b>Gwas y Neidr</b> <i>Peter Boardman</i>	17
<b>Yr Atlas Newydd</b> <i>Goronwy Wynne</i>	20
<b>Robin Brith y Seychelle</b> <i>Rhys Jones</i>	21
<b>Byd Natur a'r Bardd</b> <i>Lun Roberts</i>	24
<b>Llyn pwy?</b>	25
<b>Dod i Nabod ein Gilydd</b> <i>Dafydd Dafis</i>	27
<b>Nodiadau Natur</b>	29
<b>Wyddoch chi?</b>	31
<b>Llythyrau</b> <i>John Lloyd Jones</i> <i>W. Brian L. Evans</i> <i>Elfed H. Evans</i>	31
<b>Adolygiadau</b>	36

# Gair gan y Golygydd

Goronwy Wynne, Gwylfa, Licswm, Treffynnon,  
Sir y Fflint, CH8 8NQ.

Tel.: 01352 780689



Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau ym myd natur yn cyrraedd y Golygydd yn gyson – dyma 4 o'r rhai diweddar.

- Ogotau Cefnmeiriadog, rhwng Dinbych a Llanelwy. Mae ogof Pontnewydd yn enwog trwy'r byd fel cartref yr olion dynol hynaf a ddarganfuwyd yng Nghymru, tua 200,000 o flynyddoedd oed. Bellach, mae'r ardal wedi'i dynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
- Cwm Pennant. Mae cynllun ar droed i ddenu'r dyfrgi yn ôl ar fferm y Gilfach ar lannau Afon Dwyfor trwy adeiladu lloches neu wâl o ddeunyddiau lleol.
- Coedydd yn Nyffryn Elan. Mae'r Fforwm Coed Hynafol – grŵp o arbenigwyr ar draws Gorllewin Ewrop – wedi datgan bod y coedydd hyn yn drysor rhyngwladol – yn well nag unrhyw safle a welsant ar ôl ymweld â'r coedydd hynafol gorau yn Sweden.
- Penybont ar Ogwr. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi dynodi twyni Merthyr Mawr – y twyni honedig uchaf yng Nghymru – yn Warchodfa Natur Genedlaethol. Mae'r warchodfa gyfan o

776 erw yn agored i gerddwyr ei mwynhau.

Y flwyddyn nesaf, bydd Cymdeithas Edward Llwyd yn 25 oed ac fel rhan o'r dathliadau gobeithiwn gyhoeddi rhifyn dwbl o'r Naturiaethwr. Bydd angen toreth o ddeunydd – dechreuwch baratoi yn awr.

“A oes cymaint o frwdfrydedd dros y gwyddorau naturiol ag a fu? Credwn fod yr ymofynnydd brwdfrydig a diduedd bellach yn greadur prin. Mae gweithwyr gwreiddiol yn prin ac mae colled am wir ysgolheigion y gorffennol. Mae rhai cymdeithasau wedi rhoi'r gorau i hybu gwaith ac ymchwil annibynnol ac yn bodloni ar gynnig adloniant poblogaidd”.

- dyma'r sylwadau Golygyddol (yn Saesneg) yn y *North Western Naturalist*, cylchgrawn ar gyfer Gogledd Lloegr a Gogledd Cymru ym 1926. Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrando – gwrandawed. Gwae ni!

---

Gofid mawr oedd clywed fod Robina, priod Dyfed Elis-Gruffydd, cyn-gadeirydd Cymdeithas Edward Llwyd wedi marw mewn damwain car yn Sir Benfro ddiwedd Tachwedd. Cafodd Dyfed anafiadau difrifol yn y ddamwain, ond rydym yn falch o ddeall ei fod yn gwella'n raddol.

Dymunwn ar ran holl aelodau Cymdeithas Edward Llwyd anfon ein cofion a'n cydymdeimlad diffuant at Dyfed yn ei brofedigaeth.





# Llên y Llysïau

Cyfraniad arall i'r project sy'n casglu gwybodaeth am blanhigion a'u perthynas â phobl Cymru

## YR EIRLYS

Gan **Maldwyn Thomas** gyda chyfraniadau gan *Twm Elias, Iwan Edgar a Duncan Brown*

Enw safonol Cymraeg: eirlys  
Enw Lladin: *Galanthus nivalis*  
Enwau Cymraeg eraill: cloch  
baban/maban, eiriol, blodyn eira (yn y  
Gogledd), tlws yr eira, lili wen fach

### Cyflwyniad

Blodyn adnabyddus ac annwyl gan bawb, yn rhannol o achos ei wydnwch a'i hir oes, ond hefyd am ei harddwch syml a'i arwyddocâd fel cennad y gwanwyn. Mae lle i amau a ydyw'n blanhigyn brodorol, ynteu wedi cynefino yma y mae. Er ei fod wedi hen sefydlu trwy'r wlad, mae'n debyg mai o'r cyfandir y daeth yn wreiddiol, ond hwyrach ei fod yma ar ymyl eithaf ei gynefin gwyllt. Pleser yw gweld y blodau wrth y miloedd fel ewyn gwyn dan goed noeth ar ddechrau blwyddyn.

### Disgrifiad

Dail llwyd-wyrdd o gwmpas coes rhyw chwe modfedd (15cm) o daldra, gyda chloch wen yn crogi ar wddf main, yn blodeuo rhwng Ionawr a Mawrth. Tair 'petal' wen, efo tair llai y tu mewn a marciau gwyrdd fel pedolau ar eu gwaelod, y cwbl yn codi o fwlb gwyn efo croen brown fel papur.

### Tarddiad yr enwau

Cloch baban/maban am fod y tymor blodeuo mor fuan ar ôl y Nadolig. Eirlys, eiriol, blodyn eira, a.y.y.b, oherwydd y lliw a'r tymor. Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru nid ymddangosodd yr enw eirlys tan 1906, a'r tebygolrwydd yw mai enwau diweddar yw'r gweddill hefyd. Yn ôl yr *Oxford English Dictionary*, John Evelyn ym 1664 oedd y cyntaf i grybwyll yr enw *snowdrop*. Hwyrach bod hyn yn

cryfhau'r ddadl nad planhigyn brodorol mohono.

Mae dau enw Saesneg, sef *Candlemas Bells* a *Fair Maids of February* yn cyfeirio at wisgoedd gwyn y merched ifanc fyddai'n gorymdeithio i ddathlu Gŵyl Fair y Canhwyllau neu Buredigaeth Mair Forwyn ar 2 Chwefror, sef uchafbwynt eu tymor blodeuo.

### Coelion gwerin

Ynghyd â blodau gwyn eraill fel gorthyfail a drain gwynion, credir bod eirlysiau yn ddrwgargoelus. Mae Vickery yn ei *Dictionary of Plant Lore* yn rhoi sawl enghraifft o hyn o Loegr ac un o Gymru gan berson o Aberystwyth ym 1983, sy'n adrodd fel roedd teulu ei fam o Sir Y Fflint, efo cysylltiadau â Sir Drefaldwyn, yn credu'n gryf bod dod â thusw o eirlysiau wed'u torri i mewn i'r tŷ yn argoeli marwolaeth yn y teulu agos. Mae'r un awdur yn *Plant-lore Studies* yn sôn am fam yn Sussex yn ceryddu plentyn am ddod â blodyn unigol o eirlys i'r tŷ am ei fod yn arwydd o farwolaeth ac yn ei hatgoffa o gorff mewn amdo.

### Cyfeiriadau llenyddol

O lili wen fach, o ble daethost ti?  
Â'r gwynt mor arw ac mor oer ei gri  
Cân boblogaidd i plant - y geiriau gan  
Nantlais a'r gerddoriaeth gan  
Daniel Protheroe.

Eirlysiau:

Oblegid pan ddeffroais  
Ac agor heddiw'r drws  
Fel ganwaith yn fy hiraeth  
Wele'r eirlysiau tlws.



Oll yn eu gynau gwynion  
Ac ar eu newydd wedd,  
Yn debyg idd eu Harglwydd,  
Yn dod i'r lan o'r bedd.

Cynan

Plentyn cyntaf gwanw'yn yw  
Yn yr awel oer mae'n byw.

Iorwerth Glan Aled (Edward Roberts  
1819-67, Llansannan)



Eirlysiau ym mis Chwefror  
Prion, Sir Ddinbych. Llun: G.W.

## Gerddi

Mae llawer o wahanol rywogaethau o eirlysiau'n tyfu'n wyllt, o'r Cawcasws i ynysoedd Groeg ac i Lydaw, a'r rhain wedi eu casglu i erddi. O ganlyniad i groesi a hefyd trwy dueddiad y math cyffredin i amrywio, mae dros bum cant o amrywiadau wedi'u henwi, yn gwahaniaethu mewn maint a ffurf y petalau allanol, a lliw a ffurf y marciau ar y petalau mewnol, a llawer iawn o arddwyr yn gwirioni ar eu casglu. Mae rhai gerddi mawr, megis Plas yn Rhiw yn Llŷn a Chastell y Waun ar y gororau, yn agor i'r cyhoedd yn y gwanwyn, gan mor boblogaidd y sioe.

## Nodweddion ecolegol

Cynefin naturiol eirlysiau yw coedlannau collddail mewn lleoedd lle mae digonedd o wlybaniaeth yn ystod y tymor tyfu ac maent yn cyrraedd 2,000 metr ar rai o fynyddoedd y cyfandir. Mae'r dail wedi'u haddasu efo ewin bach caled ar eu blaenau

i'w galluogi i dreiddio trwy'r ddaear rewlyd. Prin yw pryfed ar gyfer peillio yr adeg honno, ac felly, trwy wahaniad bylbiau mae eirlysiau'n lledaenu gan amlaf. Pan fo'r twmpathau yn tewychu mae'r bylbiau yn cael eu gwthio i'r wyneb, ac yn cael eu gwasgaru gan adar ac anifeiliaid yn crafu am fwyd. Mae afonydd a ffrydiau hefyd wrth orlifo yn eu gwasgaru fel mae'n amlwg mewn pantiau a lleoedd llaith, er enghraifft ar lannau Afon Dwyfor yn Llanystymdwy. Mae Mabey yn *Flora Britannica* yn tybio bod gan leianod ddylanwad ar eu lledaeniad, wrth eu plannu fel symbol o dduwioldeb; mae'n ffaith bod eirlysiau'n niferus iawn o gwmpas abatai, eglwysi, a mynwentydd. Maent yn gosod had hefyd pan fo'r tywydd yn ffafriol a'r morgrug yn eu lledaenu pan yn aeddfed. Mae'r blodyn crog yn amddiffyn y tu mewn rhag difrod yn ystod tywydd garw. Heblaw hynny mae gan y petalau allanol y gallu i symud efo tymheredd yr awyr, yn agor uwchben 10°C ac yn cau o dan hynny, fel bod y blodyn yn dderbyngar pan fydd y gwenyn yn hedfan. Gan ei fod ynghrog, mae'n golygu bod y gwenyn yn gorfod bod ben-i- lawr wrth ymdrechu i gyrraedd y neithdar, ond mae'r tair petal fewnol yn ffurfio tiwb sy'n eu galluogi i ddal eu gafael a llwyddo ac felly'n ddjarwybod yn ffrwythloni'r blodyn. Mae'r eirlys yn blanhigyn gwydn, ac yn barod iawn i ymledu, fel y gwelwn yn aml pan aiff tai yn furddunod.

### Cyfeiriadau

Davies, Aaron *Galanthus* (1999).  
Mabey, R *Flora Britannica* (1996)  
Vickery, R (Gol.) *Plant-lore Studies*(1984),  
Vickery, R (Gol) *Dictionary of Plant-lore* (1995)  
Davies, D a Jones, A *Enwau Cymraeg ar Blanhigion* (1995)

Dim ond dechrau casglu gwybodaeth yw hyn. Byddai Duncan Brown yn falch o dderbyn cyfraniadau.



# Y Byd Drwy Lygaid Uwchfioled

Dr. Dylan Gwynn-Jones

Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DD

E-bost [Dyj@aber.ac.uk](mailto:Dyj@aber.ac.uk)

Allweddeiriau: UV, esblygiad, golwg, signal, osôn, ecosystem.

## Crynodeb

Mae'r papur hwn yn crynhoi pwysigrwydd goleuni uwchfioled fel ffactor pwysig mewn Ecoleg ar y Ddaear. Y mae'n sôn am esblygiad, gallu rhai organebau i weld UV (e.e. adar), rhyngweithio rhwng organebau (e.e. planhigion a phryfed), effeithiau anuniongyrchol ar y pridd a phrosesau meicrobaidd. Trafodir y diddordeb cynyddol mewn astudiaethau ar effeithiau UV, yn dilyn ymchwil ar ddirywiad yr osôn a'r galw am ymchwil pellach ar effeithiau'r math hwn o oleuni sy'n anweledig i lygaid dyn.

Mae dirywiad yr osôn oherwydd gollwng clorofflorocarbonau i'r awyr, yn destun pryder o hyd. Mae'r dirywiad wedi bod yn fwyaf amlwg mewn ardaloedd lledred uchel, ac wedi arwain at gynydd yn lefelau un math o oleuni uwchfioled, UV-B. Gellir rhannu golau uwchfioled yn dri dosbarth, sef UV-C (<290nm), goleuni gwan iawn nad yw'n cael ei weld ar wyneb y Ddaear; UV-B (290-320 nm), goleuni sy'n cynyddu oherwydd dirywiad yr osôn a UV-A (320 – 400 nm nm), goleuni nas effeithir gan ddirywiad yr osôn ac sy'n bresennol yn naturiol ar y Ddaear.

Mae tri gawd o ymchwil wedi bod ar effeithiau UV-B ar brosesau ecolegol, gan gynnwys effeithiau ar blanhigion, anifeiliaid, a phrosesau ecosystem megis pydru dail ar wyneb y pridd. Mae'r ymchwil hwn wedi dangos bod gan oleuni uwchfioled bwysigrwydd biolegol y tu hwnt i effeithiau dirywiad yr osôn yn gyffredinol. Nid yw hyn yn fawr o syndod i ffisegwyr gan fod egni goleuni mewn cyfrannedd gwrthdro i'w donfedd ac felly mae UV-B a UV-A yn egniol iawn.

$E=hc/\lambda$

lle mae:

$E$  = yr egni sy'n gysylltiedig â'r golau

$h$  = cysonyn Planck ( $6.6254 \times 10^{-34} \text{ Js}^{-1}$ ),  $c$  = cyflymdra ( $\text{ms}^{-1}$ ),  $\lambda$  = tonfedd (m)



Linda Olson, myfyrwraig o grwp ymchwil Dylan Gwynn-Jones yn astudio effaith deng mlynedd o ddirywiad yr osôn ar cymunedau planhigion o'r is-Arctig yn Abisko, Sweden (68°C). Gwneir hyn drwy ddefnyddio lampau uwch fioled uwchlaw y gymuned gan ddilyn patrwm naturiol ond ychwanegu uwch fioled-B i gynrychioli 15% mewn dirywiad yr osôn.

Mae mwy o egni mewn golau uwchfioled (tonfeddi 290 –400 nm) nag sy'n y golau coch (655-665nm) sy'n bwysig i ffotosynthesis ac yn gyfrifol am y gwyrddni a welir yn ein gwlad brydferth heddiw.

'Roedd goleuni uwchfioled yn her bwysig i esblygiad organebau cynnar ar wyneb y Ddaear cyn datblygiad yr haen osôn. Drwy gyd-ddigwyddiad mae goleuni UV yn cael ei amsugno'n effeithiol gan DNA. Mae UV yn creu mwntadiadau DNA sy'n gallu arwain at amrywiaethau mewn organebau ac weithiau hyd yn oed at farwolaeth. A fu'r goleuni hwn yn sbardun esblygol cynnar, felly?

Yr hyn sydd hefyd yn ddiddorol iawn yw'r ffaith bod creaduriaid hynafol, gan gynnwys adar a phryfed, yn medru gweld goleuni uwchfioled. Yn wir, pan welwch bïoden y tro nesaf, ystyriwch y byddai'n ymddangos yn wahanol iawn mewn UV, yn wir mae'r du i'w weld yn wyn a'r gwyn yn ddu. Mae goleuni yn rhoi gwybodaeth i organebau ar bedair lefel drwy : i)



ansawdd, ii) maint, iii) cyfeiriad a iv) cyfnod (e.e. y tymhorau); nid oes rhyfedd, felly, ei fod yn ddull cyffredin iawn o drosglwyddo gwybodaeth. Mae adar yn defnyddio UV-A i ddewis eu cymheiriaid, gydag ansawdd y plu yn dynodi cyflwr yr unigolyn, a hyn yn effeithio ar y modd y mae goleuni uwchfioled yn cael ei adlewyrchu. Mae pryfed hefyd yn cael eu denu i beillio rhai blodau oherwydd patrymau UV ar eu petalau.

Mae'r goleuni hwn yn bwysig iawn i blanhigion. Mae UV yn achosi i'r planhigion gynhyrchu cemegau yn cynnwys fflafonoidau i'w hamddiffyn yn erbyn yr egni sydd ynghlwm wrth olau. Mae sefyllfa debyg mewn dyn, lle mae cemegau cyfatebol fel melanin yn chwarae'r un rhan. Y peth sy'n arbennig iawn am y fflafonoidau a chemegau eraill, gan gynnwys lignin a seliwlos, yw eu pwysigrwydd ecolegol. Mae'r cemegau hyn yn bwysig o ran y modd y mae planhigion yn eu hamddiffyn eu hunain yn erbyn pryfed. Maent hefyd yn bwysig o ran ecoleg y pridd, gan arafu pydredd dail yn yr Hydref. Yn ddiweddar iawn yr ydym wedi medru dangos bod yr effeithiau cemegol hyn yn cael eu trosglwyddo i'r pridd. Wrth fwydo dail meirw o goed bedw i bryfed genwair, yr oedd yn bosibl dangos bod tyfu'r coed ym mhresenoldeb UV, cyn casglu'r dail, yn newid yr hyn sy'n cael ei gyflwyno i'r pridd gan y pryfad genwair. Mae hyn yn rhannol egluro pam y gwelsom newidiadau meicrobaidd mewn cymunedau Arctig ar ôl pum mlynedd o driniaeth gyda lefelau UV-B a oedd yn cyfateb i ddirywiad o 15% yn yr osôn. Mae hyn yn ddiddorol iawn oherwydd nid yw'r cymunedau tanddaearol meicrobaidd hyn yn gweld UV gan nad yw'n treiddio mwy na ryw 2 mm i'r pridd. Felly, credwn fod yr effeithiau'n gweithredu'n anuniongyrchol drwy brosesau yn y pridd, megis pydredd dail meirw ac archwys cemegau o wreiddiau planhigion.

Mae goleuni uwchfioled yn creu niwed i DNA, sy'n effeithio ar y modd y mae ensymau a phrotinau eraill yn cael eu creu; mae hyn yn gallu achosi lleihad yn nhwf planhigion a marwolaeth mewn rhai

meicrobau. Mae gan anifeiliaid y fantais o fedru symud i osgoi'r fath oleuni, cyhyd â'u bod yn medru gweld yr UV a'r perygl. Mae adar a rhai pryfed (rhai sy'n hedfan, fel arfer) yn medru gweld UV-A ac ychydig UV-B ond nid felly dynion. Does ryfedd bod cynifer o bobl yn llosgi yn yr haul. Yn y gorffennol roedd ein hanallu i weld UV yn un o'r rhesymau pam nad oedd yn cael ei ystyried yn bwysig a hyd yn oed heddiw mae gan rai'r agwedd 'os na fedraf ei weld nid yw o bwys'. Mae hyn hefyd yn wir am ymbelydredd ond beth am ei arwyddocâd byd-eang?



Un rheswm da iawn dros weithio yn yr Arctig, Abisko 680 N, Sweden

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd yn rhaid targedu ymchwil i ddarganfod beth sy'n bwysig o ran effeithiau goleuni uwchfioled. Bydd yr haen osôn yn parhau i ddirywio yn y dyfodol, er ein bod yn gobeithio y bydd yn adfer ymhen ryw 50 mlynedd. Mae yna hefyd fanteision o ymchwilio i effeithiau UV ar blanhigion. Gall tywynnu UV ar blanhigion ddatblygu eu hamddiffyniadau naturiol, ac efallai y gellir defnyddio hyn yn y dyfodol i leihau ein dibyniaeth ar ffyngladdwyr a phlaladdwyr yn y dyfodol. Mantais bosibl arall yw defnyddio UV i anwytho cemegau yn erbyn canser. Felly, fel canlyniad i'r poeni a'r pryderu am ddirywiad yr osôn, rydym wedi darganfod llawer sydd o fantais i ni, gan gynnwys y ddealltwriaeth nad ydym yn oruwch pob dim a phob peth ar y blaned hon. Mae byd arall i'w weld drwy lygaid UV, ac mae'n fyd yr wyf yn benderfynol o'i ddeall yn y dyfodol.





# Colli Bioamrywiaeth: oes angen gofidio?

Crynodeb o Ddarlith Flynyddol  
Cymdeithas Edward Llwyd 2001

Dr Hefin Jones,

*Prifysgol Cymru Caerdydd*

Edward Llwyd (1660 – 1709) oedd un, os nad y botanegydd cyntaf i gofnodi planhigion ac anifeiliaid Alpaidd mynyddoedd gwledydd Prydain. Lluniodd hefyd restr o blanhigion Eryri a datblygodd ddamcaniaethau i egluro dosbarthiad ffosilau. Bu i'w farw cynnar ym 1709, yn 49 blwydd oed, atal cwblhau cyhoeddiad ysgolheigaidd a llawn am hanes naturiol Cymru, cyhoeddiad a fyddai wedi disgrifio'r bioamrywiaeth a welai o'i gwmpas ac a oedd yn ei werthfawrogi'n fawr. Digon tebyg fu profiadau y Cymro o Frynbuga, Alfred Wallace, a'i gyfoeswr Charles Darwin – “There is grandeur in this view of life....., whilst this planet has gone cycling on according to the fixed law of gravity, from so simple a beginning endless forms most beautiful and most



Asesu bioamrywiaeth trychfilod yn Brunei

wonderful have been, and are being evolved.” (Brawddeg olaf *The Origin of Species* gan Charles Darwin 1859)

Allan yn y wlad, un o'r pethau sydd bob amser yn dal llygad yw'r amrywiaeth o



Gall colli bioamrywiaeth ynghyd â newid hinsawdd gael effaith andwyol ar gynefinoedd.

wahanol rywogaethau sydd o'n cwmpas. 'Rydym, er hynny, ymhell iawn o ddeall sut mae'r mwyafrif o'r rhywogaethau hyn yn byw, beth yw eu cloerau ecolegol, beth yw eu rôl oddi mewn i fframwaith y ddaear a'i hamgylchedd.

Amrywiaeth biolegol – cymhlethdod bywyd. Mae'r gair yn ymddangos yn ein papurau, ar y cyfryngau gwledol a chlywedol, mewn areithiau gwleidyddol, yn ein hamgueddfeydd ac mewn sefydliadau addysgol. Ond beth a olygwn pan yn sôn am fioamrywiaeth? Gellir trafod bioamrywiaeth ar o leiaf bedair lefel: lefel genynnau, lefel rhywogaeth, lefel cymuned neu gynefin, ac ar lefel tirlun. Mae nodweddion hinsoddol megis tymheredd a chwymp glaw yn dynodi'r ffiniau rhwng cylchfaoedd trofannol a thymherus, er enghraifft, a hefyd mathau o dyfiant, er enghraifft, anialwch, coedwigoedd a glaswelltiroedd. Tymheredd a glaw, ynghyd â nodweddion tir a phridd, sy'n pennu patrwm tymhorol y cyflenwad dŵr ac o ganlyniad yn penderfynu hyd ac amser y tymor tyfu, pa dyfiant sy'n llwyddo a hyd



yn oed ai coed bytholwyrdd, coed collddail, llwyni a phrysgwydd neu laswellt sy'n goroesi.

Ar fioamrywiaeth rhywogaethau y canolbwyntiwn yn yr erthygl hon. Faint o rywogaethau sy'n bodoli? Gan mai entomolegydd ydwyf gadewch i mi ofyn faint o rywogaethau o chwilod sy'n bod? Dyma'r urdd fwyaf o drychfilod – dros 300,000 ohonynt eisoes wedi'u henwi ledled y byd, 20, 000 yn Ewrop a rhyw 4, 000 o wahanol rywogaethau ym Mhrydain. Gellir darogan bod rhyw 40% o holl drychfilod y byd yn chwilod. Pa ryfedd i'r biolegydd enwog Haldane ddweud unwaith bod gan Dduw ryw hoffter anesboniadwy at chwilod. Cynnwys yr urdd y mwyaf o'n trychfilod – y chwilen Goliath maint dwrn - a rhai o'r trychfilod lleiaf sy'n llai na 0.5mm o hyd. Ond er cymaint ein gwybodaeth nid oes gennym fawr o syniad o gyfanswm nifer y rhywogaethau sy'n bodoli ar y ddaear. Amredeg amcangyfrif y cyfanswm o rywogaethau o gyn lleied â 3 miliwn i 80 miliwn. Onid rhyfedd yw'r ffaith ein bod yn gwario tipyn mwy o'n harian ymchwil gwyddonol ar ddod i ddeall yr hyn sy'n digwydd ar blanedau eraill, beth sy'n digwydd yn y gofod cyn ein bod yn deall ein planed ni ein hunain? Ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain mae gennym well syniad faint o blanedau sy'n y bydysawd na faint o rywogaethau sy'n bodoli ar y blaned!



Prosiect rhyngwladol BIODDEPTH

Yn ein hanwybodaeth rydym yn colli rhywogaeth ar ôl rhywogaeth. Ers 1600 fe wyddom am yn agos i 1,500 o achosion o ddifodiant anifeiliaid a phlanhigion. Mae'r ffigwr, wrth gwrs, yn llawer mwy na hyn gan na wyddom am

fodolaeth nifer o rywogaethau sydd wedi ac yn wynebu difodiant. Digwyddodd dros hanner o'r achosion difodiant yma yn ystod yr ugeinfed ganrif ac yn ôl nifer mawr o baleowyddonwyr mae cyfradd difodiant yr unfed ganrif ar hugain yn mynd i fod bedair gwaith yn uwch nag unrhyw beth a welir yn ein storfeydd ffosil. Nid diflaniad rhywogaethau yw unig effaith y gyfradd uchel hon o ddifodiant. O gollir rhywogaethau yng nghoedwigoedd trofannol Amasonia ac wrth glirio'r tir a'i or-ddefnyddio i gynhyrchu cynydau a phori anifeiliaid, rydym yn dedfrydu'r tir i erydiad. Canlyniad anochel erydiad yw tir diffaith.

Peth cymharol hawdd yw dweud bod bioamrywiaeth yn bwysig a bod y rhyngweithio rhwng yr holl organebau a'u



Bioamrywiaeth a newid hinsawdd

hamgylchedd yn eithriadol o gymhleth. Os ydym am ddeall beth yn union sy'n digwydd rhaid yw deall nodweddion y rhyngweithio yma. Ond sut medrwn ni wneud hynny – onid hanfod natur yw ei chymhlethdod? 'Rwyf wedi sôn mewn erthygl arall am yr Ecotron y bûm yn gweithio ynddo fel ymchwilydd am ryw 6 blynedd (gweler *Naturiaethwr* 2000 7: 6 – 8). Fy mwriad yw defnyddio canlyniadau rhai o'r arbroffion hyn i geisio ateb y cwestiwn – colli bioamrywiaeth: oes angen gofidio?

A yw'r nifer o rywogaethau a geir mewn cymuned yn bwysig? Mae yna garfan o wyddonwyr sy'n dadlau'n frwd bod pob rhywogaeth yn hollbwysig; os collir un





Dibynna trigolion y gwledydd sy'n datblygu ar fioamrywiaeth eu cynefin.

rhywogaeth mae'r gymuned a'i bodolaeth yn dioddef. Dyma ddamcaniaeth y rhybedion (rivets) – mae pob cymuned fel dau ddarn o fetel yn cael eu dal at ei gilydd gan rybedion. Os torrir un o'r rhybedion, yna, er nad yw'r metelau'n gwahanu, mae'r holl uned yn fwy sigledig. Dyna hefyd hanes cymuned naturiol o golli rhywogaethau. Dadl carfan arall yw mai dim ond nifer arbennig o rywogaethau allweddol sy'n angenrheidiol i sicrhau bodolaeth a llwyddiant cymuned o organebau. Gelwir y ddamcaniaeth hon yn ddamcaniaeth y criw awyren neu ddamcaniaeth y teithwyr. O sicrhau bod y criw (y peilot, y peiriannydd ac yn y blaen) yn bresennol gall yr awyren hedfan heb y teithwyr. Pa ddamcaniaeth sy'n gywir?

Darganfyddiad pwysig a phellgyrhaeddol i ni yn yr arbrawf oedd bod y nifer o rywogaethau yn hollbwysig. Er enghraifft, roedd y cymunedau a oedd yn cynnwys y nifer mwyaf o rywogaethau o blanhigion yn fwy effeithiol wrth ddefnyddio'r nwy carbon deuocsid ( $\text{CO}_2$ ) na'r cymunedau a oedd yn cynnwys llai o rywogaethau. Pam? Wel nid am fod ganddynt fwy o ddail gwyrdd ond am fod pensaerniaeth y

cymunedau hyn dipyn yn fwy cymhleth na'r cymunedau eraill. Maent felly yn medru dal goleuni'r haul mewn mwy o ffyrdd ac, o ganlyniad, yn defnyddio mwy o  $\text{CO}_2$  i ffotosyntheiddio.

A ydi'r fath ddarganfyddiad yn dal dŵr? Rhywbeth hollol artiffisial yw'r Ecotron. I geisio ateb y cwestiwn hwn dyma fynd ati i drefnu arbrawf maes. BIODDEPTH oedd enw'r arbrawf traws-Ewropeaidd hwn a'r bwriad oedd datblygu gwaith ymchwil yr Ecotron trwy ofyn a oedd yr un patrymau a welwyd yn siambrau'r Ecotron yn digwydd allan yn yr awyr agored. Darganfuwyd bod y berthynas rhwng bioamrywiaeth a'r modd mae cynefinoedd yn bodoli yn dal – roedd lleihad mewn bioamrywiaeth, neu gynydd mewn difodiant rhywogaethau, ym mhob un wlad lle cynhaliwyd yr arbrawf, yn arwain i leihad mewn cynnyrch planhigol, arafu cylchu elfennau megis nitrogen a charbon, ynghyd â lleihad yng ngallu gwrthiannol planhigion i wrthsefyll organebau mewnfudol.

Wrth golli rhywogaethau ar raddfa echrydus o uchel, rydym yn colli cyflenwadau cyffuriau meddygol,





prydfertwch a chyflenwadau coed. A ydym hefyd yn gwneud ein planed yn llai effeithiol ac yn wir efallai yn llai galluog i ymdopi â'r cynnydd cyson yn y CO<sub>2</sub> y mae'r dynoliaeth yn ei ollwng i'r atmosffêr?

Colli bioamrywiaeth: oes angen gofidio?

Hyd yma, soniais am ddifodiant rhywogaethau o ganlyniad i glirio coedwigoedd, gor-amaethu ac adeiladu. Ffactor arall sy'n cael cryn effaith ar rywogaethau a chyfansoddiad cymunedau o blanhigion ac anifeiliaid, yw newid hinsawdd a'r effaith tŷ gwydr. A yw'r cynnydd yn y nwyon tŷ gwydr yn effeithio ar fioamrywiaeth cymunedau naturiol o blanhigion ac anifeiliaid? Mewn arbrawf arall yn yr Ecotron gwelwyd mai bychan oedd effaith cynyddu lefelau CO<sub>2</sub> ar blanhigion ac anifeiliaid uwchben y ddaear – y glaswellt, y llyisiau a'r malwod. Ond digwyddodd pethau hollol annisgwyl yn y pridd. Yno, roedd cymuned o drychfilod bychain, y collembola sy'n gyfrifol am ddadelfennu mater organig a chylchu elfennau. Er cychwyn gyda'r un gymuned datblygodd cymunedau hollol wahanol, o ran cyfansoddiad rhywogaethol mewn cymunedau a oedd yn tyfu mewn lefelau uchel (2060) o CO<sub>2</sub> i'r rhai oedd yn datblygu mewn lefelau normal (1995) o CO<sub>2</sub>. Gwelwyd hefyd bod y gymuned ffwng, er cychwyn yr un fath, wedi datblygu ar lwybrau gwahanol. Agwedd ddiddorol arall oedd bod crynhoed y carbon yn y pridd dipyn yn fwy mewn lefelau uchel o CO<sub>2</sub> nag mewn lefelau normal. A yw hyn o bwys?

Credwn ei fod! Ein damcaniaeth yw bod planhigion yn ffotosyntheiddio mwy mewn lefelau uchel o CO<sub>2</sub> a bod y cemegolion carbon a gynhyrchir yn cael eu symud trwy feinwe'r planhigyn i lawr drwy'r gwreiddiau i'w rhyddhau yn y pridd. Dibynna'r ffwng ar y carbon ac mae'r newidiadau mewn crynadau yn effeithio ar gyfansoddiad rhywogaethol y cymunedau. Gan fod y collembola yn bwydo ar y ffwng, o newid y ffwng mae cymunedau'r trychfilod hefyd yn newid.

A pham mae hyn yn bwysig? Gall y newidiadau hyn yng nghyfansoddiad cymunedau'r pridd effeithio ar y modd y bydd elfennau yn cylchu yn ein pridd, ffrwythlonder y tir a nifer o agweddau eraill, hollol hanfodol, sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd, amaethyddiaeth a garddwriaeth.

Yr ydym i gyd yn effeithio ar y byd yr ydym yn byw ynddo ac ar ein hamgylchedd. Rhaid i ni beidio â thwylo ein hunain. Mae'r hyn a wnawn ni heddiu yn mynd i effeithio ar y byd y bydd ein plant, a phlant ein plant yn byw ynddo. Mae colli rhywogaethau, bioamrywiaeth, yn effeithio ar y modd y mae'r blaned yn gweithio ac yn bod.

Gorffennaf yng ngeiriau'r bardd William Jones, yn ei gerdd *Yr Hen Blaned 'Ma*:

Mi wn fod Duw yn dal i gysgu'n drwm  
A hen blancedi'r cynfyd drosto ef,  
Ni chlywodd dinc morthwylion yn y cwm  
Na sŵn tryweli'n codi llan a thref;  
Pan anwyd amser colodd beth o'i nerth  
Wrth lunio'r holl blanedau fesul un.  
Rhoi ffurf a llun i dwmpath ac i berth  
A moldio'r toeslyd bridd i lunio dyn  
Pan ddeffry Duw rhyw ddydd o'i  
drwmgwsg hir,

A rhwbio'i lygaid uwch y blaned hon,  
Fe sylla'n hanner hurt ar fôr a thir  
Heb nabod odid ddim o'i blaned gron;  
Ac yna codi'i olwg tua'r sêr  
Na stompiwyd eto gan ein dwylo blêr.





# Adar Drycin Manaw ar Ynys Enlli: datblygiadau diweddar

Peter Hope Jones

*Cuddfan, 49 Stryd Fawr, Porthaethwy, Ynys Môn LL5 5EF*

## Cyflwyniad

Mae Aderyn Drycin Manaw *Puffinus puffinus* wedi cael ei adnabod ers degawdau fel rhan bwysig o fywyd gwyllt Ynys Enlli yng Ngwynedd. Mae wedi chwarae rhan amlwg yng ngweithgareddau'r Wylfa Maes ac Adar a sefydlwyd yng Nghristin ar yr ynys ym 1953 ac yn un o'r prif resymau dros ddyndod yr ynys yn Warchodfa Natur Genedlaethol.



Mae rhyw 10,000 o barau o Adar Drycin Manaw ar Enlli

Mae bioleg cenedlu Aderyn Drycin Manaw wedi cael ei astudio mewn manylder ar ynysoedd Skomer a Skokholm yn Sir Benfro. Mae'r iâr yn dodwy un ŵy yn unig y flwyddyn – mewn siambr nythu ym mhen draw twnnel tanddaearol neu ddaear. Mae'r cyw yn magu plu a dod allan o'r ddaear ar ôl rhyw un wythnos ar bymtheg gan hedfan allan i'r môr heb gymorth ei rieni. Efallai y bydd yr oedolion yn bwydo gryn bellter oddi wrth y fagwrfa a gallant yn aml fod i ffwrdd am sawl dydd a nos, un rhiant yn bwydo a'r llall yn gori'r ŵy neu'n aros hefo'r cyw. Dichon nad yw'r adar yn magu nes bod tua phedair oed er y gallant ymweld â gwahanol nythfeydd i

ennill profiad yn y cyfamser, ac mae'n debyg y byddant yn gorffen gyda magu yn, neu yn agos i'w man genedigol.

Mae'r rhan fwyaf o ymchwil ar Aderyn Drycin Manaw o'i hanfod yn hir-dymor ond mae'n parhau mewn nythfeydd yn Nyfed a Gwynedd. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu peth o'r gwaith sydd wedi'i wneud ar Ynys Enlli yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

## Lefelau Poblogaeth

Mae Aderyn Drycin Manaw wedi magu ar Enlli drwy'r 20fed ganrif. Mae'n anodd cyfrif yn fanwl nifer yr adar sy'n magu, ond, ym 1913, cofnodwyd 30-40 o barau ar Fynydd Enlli, er bod sôn bod nifer uwch yn yr 1930au –1950au. Erbyn 1963, roedd gwybodaeth am 2000 o ddaearau ac erbyn 1996, roedd y rhif wedi codi i 6,921.

Gwnaed arolwg o bwys yn 2001 trwy leoli pob daear lle tybid bod aderyn ynddo ac yna chwarae tâp (15 eiliad) o alwad yr aderyn gwryw ger ceg y ddaear. Byddai pob aderyn gwryw oedd 'gartref' yn ymateb i'r her gan brofi bod deiliaid yn y ddaear honno. Cafodd yr arolwg hwn ei ailadrodd mewn rhan fechan o'r diriogaeth i sicrhau bod y canlyniadau'n gyson. Ni ellid archwilio rhai mannau creigiog a lle roedd eithin trwchus, yn fanwl; heblaw am hynny, cafodd yr holl ynys ei harchwilio. Oherwydd nad oes, fel arfer, ond un aderyn yn y twll ar unrhyw adeg, mae'n rhaid dyblu'r ymatebion i gynnwys ceiliogod a ieir. Ar Enlli, cafwyd amcangyfrif terfynol o 9,780 o barau. Am amrywiol resymau, gall hyn fod braidd yn isel; felly, dichon ei bod yn ddiogel dweud bod poblogaeth magu Adar Drycin Manaw rhywle tua 10,000 o barau. Mae'n amlwg bod cynnydd mawr yn ystod y degawdau diweddar a chredir y gall nythfa Enlli fod y



bumed yn y byd o ran maint i'r rhywogaeth hon.

### **Modrwyo**

Gŵyr amryw o'r ymwelwyr ag Enlli am y wefr o fentro allan i'r tywyllwch dan oruchwyliaeth ofalus y warden i ddal a modrwyo Adar Drycin Manaw ar y ddaear pan fyddant yn dychwelyd i'r nythfa yn y nos; dyma un o'r prif weithgareddau yn yr Wylfa Maes ac Adar ers ei sefydlu ym 1953. Erbyn diwedd 2001, roedd yn agos i 28,000 o Adar Drycin Manaw wedi'u modrwyo. Wrth gwrs, dim ond rhyw 1% o'r adar hyn sy'n cael eu hail ddal i ffwrdd o'r ynys ond mae'r ychydig hyn yn tystio i'r hanes sydd wedi dod i'r amlwg dros y blynyddoedd. Mae'r canlyniadau hyn, ynghyd â rhai o fannau eraill yng Nghymru, Yr Alban ac Iwerddon yn dangos bod adar Prydeinig a Gwyddelig, ar ôl magu, yn symud yn yr hydref i lawr trwy Biscay i aeafu ger glannau De America, cyn dychwelyd i'w nythfa enedigol y gwanwyn dilynol. Ym Muenos Aires, Yr Ariannin ym mis Chwefror 1993 cafwyd hyd i un o'r adar a fodrwywyd ar Ynys Enlli ym mis Awst 1978. Credir mai hwn oedd yr un pellaf i'w ddarganfod – llinell syth o 11,329km. Adeg y dadansoddi ym 1996, roedd unarddeg o adar Enlli wedi'u hail ddal yn Ne America, tri yng Ngorllewin Affrica a phedwar yn Nwyrain Gogledd America.

Ar 4 Ebrill 2002, creodd Aderyn Drycin Manaw record Prydeinig. Cafodd aderyn a fodrwywyd am y tro cyntaf ym Mai 1957 ei ail ddal. Roedd hwn yr aderyn modrwyog hynaf yn y wlad – cwta fis yn fyr o 45 mlynedd. Roedd yr aderyn eisoes wedi'i ail ddal ar Enlli yn y blynyddoedd 1961 ac 1978; gan ei fod yn oedolyn pan gafodd ei fodrwyo am y tro cyntaf, dichon fod yr aderyn hwn tua 50 oed. Cawn ein sobri wrth feddwl bod rhai o adar Enlli yn hŷn na'r Wylfa Adar.

### **Aderyn Drycin Manaw a'r goleudy**

Does dim rhyfedd bod pelydrau disglair y goleudy yn cael y fath effaith ar adar megis Adar Drycin Manaw sy'n ymweld ag Enlli liw nos. Mae'n debyg eu bod yn dod i arfer â'r golau gan mai dim ond rhyw ugain y

flwyddyn sy'n cael eu lladd trwy daro yn erbyn gwydr y llusern neu yn erbyn y tŵr. Dangoswyd yn 2000 bod y rhan fwyaf yn cael eu lladd ar ddau gyfnod – ddiwedd Mai ac ym mis Awst a dechrau Medi gydag ychydig iawn ym Mehefin (efallai am nad yw'n hollol dywyll ond am gyfnod byr yn ystod y mis hwn). Lladdwyd y nifer mwyaf yn ystod cyfnod y lleuad newydd, gydag ychydig iawn o farwolaethau adeg y lleuad lawn; yn gyfangwbl roedd bron i 40% o'r holl golledion yn digwydd yn y cyfnod o gwmpas ac yn union cyn dyddiad lleuad newydd.

Dichon fod y pegwn o golledion yn yr hydref yn deillio o'r ffaith bod nifer mawr



Aderyn Drycin Manaw ifanc

o'r Adar Drycin Manaw ifanc, dibrofiad yn cychwyn o'u daearau i'r môr agored yr adeg hon. Gwelwn felly bod Adar Drycin Manaw yn parhau i fod o ddiddordeb i naturiaethwyr ac eraill sy'n ymweld â'r ynys. Mae llawer o'r ymwelwyr yn synnu i glywed am yr holl adar sydd yno dan eu traed ac na fyddan nhw byth yn eu gweld yn ystod eu hymweliadau byr â'r ynys; tra bod y rhai sy'n aros am wythnos yn yr haf yn rhyfeddu wrth glywed galwadau'r adar wrth iddyn nhw ddychwelyd o Fôr Iwerddon yn ôl i'w tyllau magu. Dyma aderyn sy'n elfen werthfawr ym mhattrwm cadwraeth bywyd gwyllt yr ynys ac mae Enlli'n warchodfa bwysig iddynt. Mae gen i syniad bod ganddyn nhw ragor o ddirgelion yng nghadw i'r rhai ohonom sy'n awyddus i ddysgu mwy amdanynt.



# Cynefin

Gruff Ellis

*Hafnant, Ysbyty Ifan, Betws-y-Coed*

Mae'r awdur ar staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol



Y'r awdur yn dal barcud ifanc

Yma mae nghalon. Cefais fy ngeni a'm magu ym mhentref Ysbyty Ifan ar dir Stâd y Penrhyn bryd hynny sydd, ers hanner can mlynedd bellach, yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sefydliad

elusennol a ffurfiwyd ym 1895 a'r safle cyntaf a ddaeth i'w meddiant oedd Dinas Oleu uwchben Abermaw ym Meirionnydd yn rhodd o 4.5 acer. Sefydliad yw hwn i warchod ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol a phrydferthwch naturiol. Ym 1968 roedd ganddynt 160,000 o aelodau, erbyn heddiw mae rhif yr aelodaeth bron yn dair miliwn. Mae hynny yn siarad drosto'i hun.

Cymrwyd stad Ysbyty (a'r Carneddau a'r Glyderiau) drosodd pan fu farw'r Arglwydd Penrhyn, a'r llynedd bu dathlu mawr ar hanner can mlwyddiant Stâd Ysbyty dan reolaeth yr Y.G. Cafwyd cyfarfod arbennig yn y neuadd ac eitemau gan blant yr ysgol leol a chafwyd englyn arbennig gan John O Jones o Gwm Eidda i'r achlysur

Yn ein maes plannwyd mesen-  
hon yw'r stad

Ac o had ei choeden  
Heddiw, fe ddaw yn llawen  
Inni ffrwyth o dwf ei phen.

Mae pentref Ysbyty wedi'i osod y ddwy ochr i'r afon Conwy gyda Chwm Gylchedd

ar yr ochr ddeheuol, Cwm Eidda ar yr ochr ogleddol a'r Migneint rhyngom â Ffestiniog. Yma y crwydraf yn aml hyd y nentydd a'r bryniau i chwilio a chanfod rhyfeddodau byd natur a'r awydd o hyd i ddarganfod chwaneg ac i ddal i ryfeddu at gyfoeth yr hen fyd.

Disgwyl a derbyn weithiau chwilio a  
chael

Gweled a sgwennu a diolch am fyd mor  
hael

Y Migneint neu'r rhostir corsog yw cynefin y Grugiar Goch a'r Gwalch Bach ac erbyn heddiw y Bod Tinwen, na fyddai'n cael llonydd pan droediai ciperiaid yr hen lord hyd erwau'r grug. Adar eraill sy'n rhannu'r erwau garw yw'r Gigfran a'r Bwncath sy'n



Y Lili Ddw'r Felen

niferus iawn gyda'r Cudyll Coch yntau. Mae rhai adar mân hefyd fel Pibydd y Waun a'r ddau ymwelydd gwanwynol sef Tinwen y Garn a Mwyalchen y Mynydd, yn enwedig ar lethrau creigiog yr Arennig. Unwaith erioed y gwelais Bibydd y Mawn (Dunlin) ac wrth gwrs fe nytha'r Cwtiaid Aur yma ond yn fwy i gyfeiriad y Gylchedd. Mae Pibydd y Dorlan yn ymwelydd arall a Llyn Conwy ac i lawr yr





Y Gwlithlys

afon hyd at y llan, lle gwelir hefyd Fronwen y Dŵr bob cam i fyny'r Conwy i'w tharddiad. Os byddwch yn croesi o Ysbyty i Ffestiniog, gwyliwch yn ofalus ac fe gewch gip ar y Barcud Coch a'i gymar a sefydlodd eu hunain yma yn Hydref 96. Gwefr yn wir oedd cael gweld y Barcud Coch cyntaf i nythu yn yr hen sir Gaernarfon ers dros ganrif ac mae wedi nythu yma ers gwanwyn '97 a magu 10 o gywion mewn chwe blynedd. Pâr arbennig iawn, ac rwyf yn eu gwarchod (gyda thrwydded) yn ofalus iawn. Er hynny, mae rhyw giwed yn dod ar eu hynt ac yn ddigywilydd braidd ac mae naturiaethwr yn colli ei limpyn weithiau. Rwyf o'r un farn â Iolo Williams ar faterion fel hyn a bydd Iolo'n dod i fyny i ddringo'r goeden anferth a rhoi cymorth i fodrwyo'r cywion bob blwyddyn. Mae'n siŵr y bydd Norman Closs yn fodlon i mi ddyfynnu ei englyn i'r Barcud Coch

Yn y frwydr rhag ei ddifrodi- a'i gyrch

O gylch llynnoedd Teifi;

Ei gringoch ŵn welwn ni,

Un a roed i fawrhydi.

Ie, un o hanesion hapus byd natur yw hanes y Barcud Coch. Byddaf yn ei weld yn hela'r Migneint a'r ffriddoedd ac weithiau, yn enwedig ym Medi a Hydref, uwch y llan yma'n aml. Un peth y buaswn yn hoffi yw darganfod i ble mae'r cywion yn mynd i sefydlu tiriogaeth eu hunain Mae'r ddau Farcud yma, beth bynnag, yn dal llawer o gywion Piod a Brain Tyddyn sy'n rhy niferus o lawer yma ar hyn o bryd, a hefyd, yn enwedig yn y gaeaf, yn byw ar

gelanedd fel y gwna'r Bwncath. (Mae ambell i gwningen ac ysgyfarnog wedi dod i ben eu taith dan olwyn rhyw fodur neu'i gilydd ac ambell hen ddafad hefyd). Maent yn cystadlu am gelanedd â'r Gigfran yn yr ucheldir ac mae honno erbyn heddiw yn gyffredin uwch y llan yma. Ers talwm, nid oedd i'w gweld ond ar ucheldir ein ffriddoedd a'r Migneint. Byddaf yn rhyfeddu at ddawn bardd a'i gynghanedd gelfydd. Rhaid seboni tipyn cyn dyfynnu eto o waith Clos i'r Gigfran:

Geilw hon am gelanedd- uchel

Yn rhychwant y garnedd

Croes ddu mor fagddu â'r bedd

O gylch y maith unigedd.

Mae'n fis Medi a minnau ar y Migneint yn taflu pluen ar y dŵr ar Lyn Conwy neu'r Serw lle mae'r Lili Ddŵr Felen (*Nupha lutea*) yn ei blodau yng Ngorffennaf ac Awst. Ond, ar hyn o bryd, mae yn ei gogoniant a phorffor blodau'r grug yn rhoi gwefr eto. Weithiau, er hynny, byddaf yn meddwl nad yw eu blodau cystal ag ers talwm gan fod y grug yn mynd yn hen ac yn hirgoes.

Byddai mwy o losgi grug ers talwm mewn cylch o 7 mlynedd er mwyn cael grug ieuanc i'r grugier, 'Gemau teg gwmwd haul ac awel' ond mae englyn arall mwy anghyfarwydd gan Pedrog

I'r teg ros rhoir tŷ grisial- i fagu

Pendefigaeth feddal;

I'r grug dewr y graig a dâl

Noeth weriniaeth yr anial.

I fynd am dro i fyd llysieuog, mae'r Migneint yn fan eithaf diddorol.

Migwyn a grug wrth gwrs a Phlu'r Gweunydd yw'r prif dyfiant ond cawn y Llus (*Vaccinium myrtillus* a'r *V. vitis-idaea*) hefyd i gyfeiriad y Gamallt. Mae'r Gwlithlys (*Drosera*) yn eithaf cyffredin a'r Llygaeron (*Vaccinium oxycoccus*) i'w canfod yma ac acw a hyd yn oed y Gaineirian Fechan (*Listera cordata*) hefyd ond yn anodd drybeilig i'w chanfod. Awn i lawr ar hyd Cwm Serw heibio'r hen anheddau gwag bellach: Cefn Garw, y lle sydd wedi cyfareddu Ian Perrin, a Thrawsant,





Moelfryn Serw a Thrwynswch lle daw'r Serw fechan i ymuno â'r Conwy yr ochr uchaf i Flaen y Coed. Pob un yn wag bellach, ond:

Yno roedd bywyd a hedd llechweddau,  
Bryn a chorlwyni, brwyn a chorlannau;  
Sain cenlli hefyd, swyn cynnull hafau  
O drebl hedydd i si drwy y blodau;  
Awr dawel ym mro'r duwiau,  
Cyn i'r byd roi ei benyd a dolur ei  
boenau.

Dywedwyd rhywbryd bod gan bawb ei Gwm Pennant a dywedaf innau mai Cwm Eidda yw fy Nghwm Pennant i! Mae'r hen gartref ym mhen uchaf y cwm sef Blaen Eidda Uchaf ac mae'r hen annedd wedi bod yn wag ers 1934; ond mae'n gwm arbennig iawn a thoreth o flodau gwylltion o bob math- o'r Friallen yn y gwanwyn cynnar hyd ochr y ffordd ac yn y gweirgloddiau unigryw sydd yno : y Clefryn (*Jasione montana*) y Wialen Aur (*Solidago*) a Dant y Pysgodyn (*Serratula tinctoria*); blodau diwedd yr haf. Mae tegeiriannau yno; lluosog y rhai porffor, heb i mi ymhelaethu, Y Tegeirian Llydanwyrdd (*Platanthera chlorantha*) y Gaineirian (*Listera ovata*), Cribau Sant Fraid

(*Stachys officinalis*) yn doreth. Eithin yr Iâr/Cracheithin (*Genista anglica*) ac mae llawer eraill yn rhy niferus i'w henwi.

Chwedl Eifion Wyn:

Gwn pa beth yw cael fy nal  
Yn nrysni'r blodau!

Ond mae un a ganfyddais yn weirglodd Tŷ Uchaf ar lan yr afon Eidda sef yr Ysgallen Fwyth (*Cirium heterophyllum*). Cyn amser y byrnau, roeddwn yn cerdded i fyny'r cwm â llwyth o wair i fuarth Tŷ Uchaf ac un o'r blodau yma yn gymysg yn y gwair ar ei ffordd i'r gadlas. Ie, gwefr arall ynte, wedi imi eu canfod yn Sir Ddinbych,

nepell o Blas Iolyn, ar fferm Bryn Gwyn, i fod yn fanwl gywir, ond mae wedi diflannu oddi yno ers tua 20 mlynedd. Ond maent i'w gweld ar lan Afon Eidda fechan o hyd er eu bod wedi prnhau.

Un arall cyn cau pen y mwdwl sef y Caldrist Llydanddaill (*Epipactis helleborine*) ar ochr nant sy'n rhedeg i'r Afon Eidda sef Nant Fforchog, gwefr arall o Gwm Eidda sydd wedi rhoi pleser ac aml i orig ddifyr eithriadol i ryw bwt o naturiaethwr fel fi. Roedd hen wraig o Sasnes wedi dod i fyw i le o'r enw Pont Eidda yng nghanol y coed yn is i lawr na'r gweirgloddiau cyfoethog yma. Roedd yn lysieuwraig arbennig iawn

ac wedi cyhoeddi llyfryn  
*Lichens for vegetable dyeing* ac wedi bod yn ddarlithydd mewn prifysgol yn Iwerddon. Mae copi o'i llyfryn gennyf i'w drysori ac fe ddysgais lawer iawn ganddi hi fel ble i gael hyd i'r planthigyn bychan digon di sylw ond diddorol, sef y Mwsglys bychan (*Adoxa moschatellina*). Oes mae gennym gyfoeth yn ein gwlad ac mae'n bwysig eithriadol ein bod yn ei warchod yn ofalus ac yn trwytho'n plant, ein hwyron a'n hwyresau gan bwysleisio pa mor bwysig yw cadwraeth a byd natur yn gyffredinol a ninnau'n treisio'r hen blaned

yma ac yn diystyru'n hetifeddiaeth. Mae honno'n etifeddiaeth bwysig ryfeddol na ddylem ei diystyru.

Mae Gwenallt wedi'i ddweud dros hanner canrif yn ôl ac mae'n bryd i ni ddeffro

Maddau inni mewn heddwch am anghofio ein daear

Am ddienyddio dy bridd, am ladd ei lun a'i liw

A chithau wedi rhoddi cymaint o'th gyfoeth a'th brydferthwch

Yn y cornelyn o'r byd lle rydym ni yn byw.

Rwy'n dechrau pregethu eto, mae'n bryd cau pen y mwdwl a diolch am y cyfle.



Tegeirian Llydanwyrdd bach



# Gwas y Neidr Ymfudwyr Newydd!

Peter Boardman

7 High Street, Weston Rhyn, Sir Amwythig SY10 7RP

Mae Peter Boardman yn naturiaethwr hunan-gyflogedig gyda diddordeb arbennig mewn trychfilod.

Lluniau gan yr awdur



Picellwr Pedwarnod *Libellula quadrimaculata*

Am gannoedd o flynyddoedd, bu goresgyn a gwrthryfel ar dir y Gororau. Gellid tybio, yn yr oed fodern hon bod pethau'n llawer tawelach – ond nid felly! Yn dawel a llechwraidd, mae criw o greaduriaid wedi ymgasglu ar faes y frwydr lle bu sŵn gwrthdaro yn ddiweddar iawn – Gwarchodfa Natur Genedlaethol Fenn's, Whixal a Bettisfield Mosses ar y ffin rhwng Cymru a sir Amwythig. Dyma lle'r enillwyd y frwydr ym 1991 ac yr achubwyd un o fawnogydd pwysicaf Cymru ynghyd â'i bywyd gwyllt (gweler *Y Naturiaethwr*, Cyfres 2, Rhif 6, Mehefin 2000, tud.24). Roedd digon o greithiau yma, a'r gors yn

sychu er mwyn torri mawn gan adael dim lle i fywyd gwyllt y cynefin arbennig. O hynny ymlaen, mae gwaith Dr Joan Daniels a'i thîm yn dechrau adfer y gors ar ôl canrifoedd o dorri mawn. Y creaduriaid sy'n manteisio ar hyn yw Gwas y Neidr – sef y gwesynod (*damselflies*) a'r mursennod (*dragonflies*) a elwir yn Odonata (Groeg am 'genau danheddog'). Ers 1991, bu cynnydd syfrdanol yn eu nifer oherwydd y dŵr sy'n awr yn cronni'n y llynnoedd a'r ffosydd drwy'r flwyddyn, yn ogystal â'r cynnydd yn llystyfiant y gors. Trwy gydol yr 1990au cynyddodd y niferoedd a daeth rhywogaethau newydd i'r safle, a bellach,



dyma un o'r manau gorau am Was y Neidr yng Nghymru gyfan. Wrth gwrs, cyn cyfnod y torri mawn a chyn i'r gors sigo a chrebachu oherwydd y draenio, roedd yn lle bendigedig gyda digonedd o Was y Neidr.

Bob gwanwyn, yn ystod y dyddiau cynnes cyntaf ar ddiwedd Ebrill, efallai y byddwch chi'n ddigon ffodus i weld y Fursen Fawr Goch *Pyrrhosoma nymphula* (Large Red Damselfly) yn deor ac yn anelu am gysgod y coed bedw ar fin y gors. Yma, ym Mai, bydd unigolion, dwsinau a channoedd o'r creaduriaid yn ymgasglu am loches ac i wledda ar y toreth o fan bryfetach. Ar ôl cyfnod o besgi, daw'r gwrywod yn ôl i ganol y gors i sefydlu tiriogaeth fagu. Mae'r gwrywod yn diriogaethol iawn ac yn cadw golwg am unrhyw fenywod sy'n cael



Torri mawn, Whixall

eu denu i'r diriogaeth addas. Er eu bod yn treulio hyd at ddwy flynedd fel larfa (yn ôl y cyflenwad bwyd) dim ond am ryw wythnos mae'r mursesnod llawn dwf yn byw.

Mae mis Mai hefyd yn amser da i weld un o'r gwysesnod harddaf, y Picellwr Pedwarnod *Libellula quadrimaculata* (Four-spotted Chaser). Gwelir y gwrywod yn hofran dros y llynnoedd corslyd a cheir llawer brwydr ffyrnig gyda gwrywod eraill a hyd yn oed â rhywogaethau gwahanol wrth i'r tiriogaethau gael eu bygwth. Yn y cyfamser, mae'r benywod yn llechu'n ddistaw nes bod y cynnwrf yn distewi cyn mentro allan i chwilio am gymar.

Ym mis Mai hefyd, gwelir gwir seren y fawnog, sef y Picellwr Wynepwyr *Leucorrhina dubia* (White-faced Darter). Bu bron i'r rhywogaeth yma ddiplannu'n llwyr o'i unig safle yng Nghymru pan sychwyd y gors ar gyfer torri mawn ar raddfa fasnachol. Byddai hyn yn drueni ond mae'r gwaith adfer yn awr yn cynnig cynefin addas i'r creadur cymhleth hwn. Mae'r



Cynefin Gwas y Neidr

larfa'n dibynnu'n llwyr ar y Migwyn (*Sphagnum*) am guddliw rhag ei elynion gan hela pryfetach yn y dŵr ddydd a nos. Mae'n byw yn y gobaith bod y dŵr yn rhy asidig i bysgod ffynnu – neu byddai'n helpa go iawn. Tymor byr sydd i'r rhywogaeth hon ar yr aden ac ychydig a welir ar ôl canol mis Mehefin. Tra bo'r gwryw yn archwilio'i diriogaeth, mae'r fenyw yn llechu ymysg y llwyni gan dorheulo nes daw'r awydd. Mae'r gwryw o'r Picellwr Wynepwyr yn gyfuniad o liwiau coch a du tra mai du a melyn yw'r fenyw. Mae gan y ddau smotiau gwyn ar y pen sy'n gyfrifol am enw'r rhywogaeth.

O ganol mis Mehefin ymlaen, gwelir mwy a mwy o Was y Neidr a daw'r Picellwr Du *Sympetrum danae* (Black Darter) i'r golwg. Mae hwn yn un o arbenigwyr y pyllau asidig ar y gors a'r fawnog a gellir cael niferoedd anferth ohono. Mae yn ei anterth tua chanol Gorffennaf ac yn y blynyddoedd diwethaf, cafwyd degau o filoedd ohono. Mae'r fenyw'n ymddwyn yn rhyfedd. Mae'n llechu ymysg y planhigion gan ddibynnu ar y gwrywod mwyaf penderfynol i ddod o hyd iddi. Mae'r rhai sy'n methu cymharu fel hyn yn hedfan allan dros y



pyllau dŵr mewn dull igam-ogam sy'n denu heidiau o'r gwrywod nes bod y cyflymaf yn ei dal. Os bydd y nosweithiau'n fwyn gall y Picellwr Du fod yn hedfan hyd at fis Tachwedd.

Canol haf yw tymor y gwesynnod mawr ('Hawkers'). Ar ôl tair neu bedair blynedd yn hela'u tamaid yn y dŵr fel rheibwyr ffyrnig, daeth eu hawr fel meistriaid yr awyr dros wyneb y gors. Ers pan ddechreuwyd adfer y gors, y rhywogaeth fwyaf llwyddiannus o'r 'hawkers' yw'r Gwas-neidr Glas *Aeshna juncea* (Common Hawker). Mae wedi cynyddu'n fawr ar ôl



Mursen Goch Fawr *Pyrrhosoma nymphula*

adfer y ffosydd a'r draeniau. Mae torri peth mawn i greu pyllau rhag ofn tân hefyd yn denu llawer o'r gwesyn hardd hwn. Mae'r *costa* melyn (y wythien uchaf ar yr aden) yn nodweddiadol o'r Gwas-neidr Glas ond wrth hedfan, mae'n debyg iawn i'r Gwas-neidr Llachar *Aeshna cyanea* (Southern Hawker). Weithiau, gellir eu gwahanu yn ôl eu hymddygiad ar yr aden. Mae'r Gwas-neidr Llachar yn greadur hyf gan hofran o flaen y gwylwr fel pe'n amau ei amcanion, tra bo'r Gwas-neidr Glas yn dueddol o hedfan i ffwrdd yn uchel cyn disgyn am loches.

Mae dau rywogaeth arall, y Gwas-neidr Brown *Aeshna grandis* (Brown Hawker) a'r Gwas-neidr Tramor *A. mixta* (Migrant Hawker) yn ymuno â'r lleill – yr olaf yn magu ar bob math o dir gwlyb ac yn dod i Fenn's a Whixall cyn diwedd yr haf. Mae'n llai na'r *Aeshna* eraill ac yn yr 1940au ystyrid ef yn brin ym Mhrydain. Oddi ar

hynny, mae wedi ymledu i'r gogledd a'r gorllewin ac yn ystod y degawd diwethaf, mae wedi dod yn gyffredin ar y Gororau. Bellach, mae rhywogaethau o gyfandir Ewrop yn ymfudo i Gymru'n rheolaidd gan gynnwys y Picellwr Rhudd *Sympetrum sanguineum* (Ruddy Darter) a'r Picellwr Asgell Aur *S. flaveolum* (Yellow-veined Darter). Mae eu nifer yn amrywio yn ôl yr amodau ymfudo ar y pryd. Mae corsydd Fenns a Whixall yn croesawu'r ymfudwyr hyn ac yn cynnig cynefin iddynt cyhyd ag y carant ddod atom. Ymddengys bod newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y symudiadau hyn gyda'r Ymerawdwr *Anax imperator* (Emperor Dragonfly) yn magu yma o ganol y 90au ymlaen a'r Orthetrum Llinell-ddu *Orthetrum cancellatum* (Black-tailed Skimmer) wedi magu yn ystod 2001. Ar hyn o bryd, mae 22 rhywogaeth o Odonata un ai'n magu yma neu'n ymwelwyr cyson neu'n ymfudwyr achlysurol. Mae 27 rhywogaeth wedi'u cofnodi allan o'r 38 rhywogaeth sy'n magu ym Mhrydain.

Os hoffech ymweld â Fenns a Whixall i chwilio am y goresgynwyr newydd, yna cysylltwch â: Site Manager, English Nature, Manor House, Moss Lane, Whixall, Shropshire SY13 2PD gan amgae amlen a stamp am drwydded, neu, os dymunwch, cewch gerdded un o'r llwybrau hunan-dywys sy'n arwain i'r safle o sawl cyfeiriad.

Llyfr defnyddiol:

Brooks, S *Field Guide to the Dragonflies of Great Britain and Ireland*. British Wildlife Publishing (1997)





# Oes yna lai o flodau gwyllt? - yr Atlas newydd o'r diwedd

Goronwy Wynne



Yn ôl ym 1962 cyhoeddwyd atlas yn dangos dosbarthiad pob blodyn gwyllt ym Mhrydain ac Iwerddon. Bu hwn fel rhyw 'Feibl' i bob botanegydd dros y blynyddoedd – y cyfeirlyfr safonol i

droi ato mewn cyfyngder!

Aeth deugain mlynedd heibio. Sylweddolwyd bod y byd wedi newid, a bod angen diweddaru ein gwybodaeth. Rhyw bum mlynedd yn ôl aeth y BSBI (*Botanical Society of the British Isles*) ati o ddifrif i drefnu arolwg newydd. Bu 1,600 o wirfoddolwyr wrthi'n ddiwyd yn cofnodi pob planhigyn blodeuol a phob rhedynen ledled y wlad. Yr uned gofnodi oedd y sgwariau 10km x 10km o'r grid cenedlaethol sydd i'w gweld yn glir ar bob map O.S. Bu chwilio dyfal am bedair blynedd a chasglwyd 9 miliwn o gofnodion.

Cofnodwyd bron i dair mil o wahanol rywogaethau dros y wlad, a bu'n rhaid ymweld â phob sgwar nifer o weithiau yn ystod y gwahanol dymhorau er mwyn cofnodi'n drylwyr. Bellach, mae'r cyfan wedi'i orffen, y gwaith ar ben a'r llyfr yn ein dwylo. Ac mae o'n dipyn o lyfr! 910 o dudalennau – yn pwyso rhyw dunnell a'i bris yn £100!

Mae'r 50 tudalen gyntaf yn trafod cefndir y cynllun ac yn disgrifio sut yr aethpwyd ati i gasglu a threfnu'r holl wybodaeth. Mae yna hefyd bennod sy'n ystyried bioamrywiaeth y planhigion a phennod arall sy'n gofyn sut

mae pethau'n newid – oes yna blanhigion 'llwyddiannus' a phlanhigion 'aflwyddiannus'?

Ond prif bwrpas y gyfrol yw cyflwyno cyfres o fapiau, un ar gyfer pob planhigyn, yn dangos ei ddosbarthiad ar ffurf dotiau (un dot i bob sgwar 10km x 10km). Dangosir, trwy gyfrwng lliwiau gwahanol, lle mae'r planhigyn yn gynhenid a lle nad yw a hefyd dangosir pryd y gwnaed y cofnod – cyn 1970, 1970 – 1986 ac o 1987 ymlaen. Mae yna hefyd baragraff defnyddiol iawn yn trafod ecoleg pob rhywogaeth gan gynnwys disgrifiad o'i gynefin a hefyd nodi unrhyw newid yn nosbarthiad y planhigyn er cyhoeddi'r Atlas gwreiddiol ym 1962.

Ar ben hyn i gyd, cyflwynir CD-ROM gyda'r gyfrol sy'n cynnwys manylion am fwy na 900 o blanhigion ychwanegol sydd wedi cyrraedd y wlad yma, ond heb ledaenu'n ormodol. Gellir paratoi rhestrau o rywogaethau o unrhyw ardal, cymharu dosbarthiad rhywogaethau, paratoi mapiau arbennig, a gweld beth yw effaith nodweddion amgylcheddol, fel tymheredd yr haf, ar rywogaethau penodol.

O ia! Gellir prynu'r llyfr am ostyngiad sylweddol, sef £70 oddi wrth Summerfield Books, High St., BROUGH, Cumbria CA17 4AX.

New Atlas of the British and Irish Flora  
Preston, C.D., Pearman, D.A. & Dines, T.D.

Oxford University Press, 2002

O.N. Mae un o'r awduron Dr Trevor Dines, yn byw ym mhentref Bethel ger Caernarfon ac yn dysgu Cymraeg yn llwyddiannus.



# Robin Brith y Seychelle ar Aride

Rhys Jones

*Mae'r awdur yn byw yn Waunfawr, Gwynedd ac yn gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.*



Aderyn Drycin Audubon *Puffinus atrodorsalis* wedi ei achub o'r pasta.

Ddydd Nadolig diwethaf cefais anrheg go annisgwyl, galwad ffôn gan gyfaill ar ynysoedd y Seychelle yn fy ngwahodd i draw yno. Fel y dywedodd, roedd costau hedfan yno wedi gostwng yn ddiweddar, ac roedd bargeinion i'w cael. Pum mis yn ddiweddarach roeddwn wedi cyrraedd, ac yn gorfod cydio am fy mywyd yn y cwch rwber chwim wrth wibio dros fôr dulas. Ar y gorwel roedd siâp ynys Aride yn tyfu wrth i mi nesau, a physgod ehedog yn sbydu o'm blaen fel sêr gwib gloyw dros y tonnau. Aride yw'r ynys fwyaf ogleddol o ynysoedd ithfeinig y Seychelle yng Nghefnfor India. Ynys fechan yw hi, rhyw gilomedr o hyd a hanner cilomedr o led a'r copa 130 medr uwchlaw'r môr. Mae Aride yn cael ei rhedeg fel gwarchodfa natur gan Gymdeithas

Frenhinol Cadwraeth Natur.

Roeddwn yn ymweld â'r ynys am wythnos gyda'm cyfaill Jess Wilkinson a oedd yn gweithio i Birdlife Seychelles, ac roeddem yno i weld un aderyn arbennig iawn, sef Robin Brith y Seychelle (*Copsychus sechellarum*).

Mae'n debyg fod y Robin yn aderyn cyffredin ar ynysoedd ithfeinig y Seychelle cyn dyfodiad pobl yn yr 1770au. Yr unig elynion oedd ganddo oedd nadroedd a sgincs, a ddygai wyau o ambell nyth. Yn anffodus, ni allai'r Robin ddygymod â'r bygythiadau a ddaeth yn sgil pobl yn ymsefydlu ar yr ynysoedd. Dinistriwyd llawer o'i gynefin naturiol er mwyn gwneud lle i blanhigfeydd coed cnau coco. Cafodd y cathod a'r llygod mawr estron effaith drychinebus ar y boblogaeth yn ogystal â gelynyddion llai amlwg fel y Mynah Cyffredin (*Acridotheres tristis*) a hyd yn oed y Dylluan Wen (*Tyto alba*)! Erbyn 1940 roedd y



Morwennol Wen *Cygis alba*



Robin wedi marw ar bob ynys heblaw ynys bitw Fregate, ac ym 1959, dim ond 20 oedd ar ôl yn y byd.

Bu sawl ymdrech i achub y Robin drwy sefydlu poblogaethau newydd ar ynsoedd cyfagos dros y blynyddoedd.

Aflwyddiannus fu'r rhain am nifer o resymau. Ond, gyda'r Robin ar fin diflannu am byth, sefydlwyd Rhaglen Atgyfodi'r Robin ym 1990 gan Birdlife Seychelles, ac am y tro cyntaf fe ddatblygwyd strategaeth fentrus i achub y Robin. Roedd y rhaglen yn rhwym o fod yn fentrus gan fod ymgymryd mewn unrhyw ffordd â phoblogaeth mor fach, yn un llawn peryglon!

Y gamp fawr oedd sefydlu poblogaethau newydd o'r Robin ar ynsoedd eraill. Roedd yn rhaid felly dewis ynsoedd lle roedd rhywfaint o gynefin naturiol y Robin, sef coedwigoedd arfordirol. Roedd ynsoedd Cousin, Cousine ac Aride yn addas.

Y cam nesaf oedd dileu'r gelynyddion estron.

Aed ati i osod trapiau a saethu'r estroniaid ac fe ddifawyd y llygod mawr drwy ollwng abwyd wedi'i wenwyno o hofrenyddion – roedd y bobl yma o ddifri! Bu'r rhaglen yn llwyddiant, ac fe sefydlwyd poblogaethau newydd ar Cousin ym 1995 a Cousine ym 1996 a bellach mae'r ddwy boblogaeth yn iach a sefydlog.

Ynys Aride oedd y nesaf. Roedd Aride yn ddewis amlwg fel safle i ail sefydlu. Mae'n warchodfa natur, lle nad oedd gelynyddion estron, â chanddi gynefin naturiol a ail sefydlodd yn sgil methiant planhigfa cnau coco yn y gorffennol pell. Methiant fu'r ymdrechion cyntaf i ail sefydlu'r Robin ar Aride, ond datblygwyd rhaglen lwyddiannus gan Birdlife Seychelles a elwir yn "rhyddhau meddal". Dyma'r drefn: daliwyd holl boblogaeth y Robin ar ynys Fregate a'u cadw mewn cewyll mawr wedi'u hadeiladu ar eu tiriogaethau unigol. Yn raddol, gyda bwydo rheolaidd, dofwyd yr adar i gyd fel eu bod yn gyfforddus yn eu cewyll. Dim ond wedyn y symudwyd



Ffodi Seychelle *Foudia sechellarum* ar y bwrdd brecwast





Robi Brith y Seychelle *Copsychus sechellarum*

rhai paru o'r adar i Aride mewn hofrennydd a'u rhoi mewn cewyll newydd mewn tiriogaethau addas. Wedi mwy o ymgylfarwyddo a bwydo rheolaidd, agorwyd drysau'r cewyll fel y gallai'r adar grwydro a dyrannu eu tiriogaeth gyda'u cymdogion gan ddychwelyd i fwydo, clwydo a hyd yn oed nythu'n ôl yn eu cewyll.

Mae'r dechneg hon wedi gweithio'n dda ar Aride ac, ar fy ymweliad i, roedd yn bleser cael yr adar bach hardd hyderus yma'n fy nilyn wrth i mi gerdded drwy eu tiriogaeth - yn barod i gipio unrhyw chwilen neu bryfetyn a fyddai'n dianc o'm ffordd.

Er nad oes gelynyddion gan y Robin ar Aride, mae ganddo dipyn o gystadleuaeth pan ddaw'n amser cinio. Wrth i ni wneud y rownd fwyd ddwywaith y dydd, byddai'n ras wyllt rhwng y Robiniaid, yr ieir dŵr cynhenid a'r sgincs i lowcio'r bwyd gyntaf. (Yr un iâr ddŵr sydd gennym ni ar ein ffosydd a'n pyllau dŵr yng Nghymru, ond nid yw'r rhain wedi dysgu nofio gan nad oes yr un pwll na ffos i ymarfer ynddynt ar Aride!) Roedd y sgincs yn fwy mentrus, ac yn aml yn dod i rannu ein bwyd ni hefyd. Dringent i ben y bwrdd i lyfu saws cyri neu ddwyn sbageti oddi ar ein platiau - cyn i ni orffen. Yn aml, byddai Ffodi Seychelle- sef aderyn cyfeillgar ac eofn arall yn ymuno â'r sginc ar y bwrdd i rannu'n swper!

Roedd y Robin yn dynfa fawr, ond roedd rhywbeth arall yn fy hudo i Aride. Yma, mae nythfa adar môr fwyaf Cefnfor India.

Drwy gyd-ddigwyddiad roedd y tymor magu ar ei anterth yn ystod fy ymweliad ac roedd y sŵn yn fyddarol. Yn y dydd, ymddangosai fod gan bob cangen nyth arni, ac roedd yr awyr yn llawn o Adar Ffrigid Mwyaf (*Fregata minor*), Adar y Trofannau Gynffonwen (*Phaethon lepturus*) a môrwenoliaid amrywiol gan gynnwys

y Fôrwenol Wen (*Cygis alba*) angyliaidd. Yn y nos dychwelai degau o filoedd o Adar Drycin i'r ynys, yn chwyrlio trwy'r coed yn y tywyllwch gan alw yn oleddfus. Ar un noson dewisodd un Aderyn Drycin lanio yn ein powlen pasta! -roedd amser prydau yn gallu bod yn reit gyffrous!

Nid yr adar yn unig oedd yn rhyfeddol. Roedd rhywbeth yn dal fy llygaid yn barhaus; corynnod a miltroed anferth, crancod meudwy mawr yn llusgo ar draws llawr y goedwig ac ystlumod tua'r un maint â brain. Roedd rîff cwrel ychydig lathenni o'r traeth - ac roedd yn bleser dianc gyda gogls a snorcl o sŵn byddarol yr adar at fyd tawel a disglair o bysgod lliwgar, baraciwdas a chrwbanod môr.

Roedd y cyfle i brofi un o lwyddiannau mawr byd cadwraeth y blynyddoedd diweddar mewn safle baradwysaidd yn un na wna' i byth ei anghofio. Ond un wers a ddysgais oedd fod un peth yn brinnach hyd yn oed na Robin Brith y Seychelle, sef tocyn awyren rhad yno!





# Byd Natur a'r Bardd

Lun Roberts

## Atebion y Gystadleuaeth

Gosodwyd tasg yn y rhifyn diwethaf o'r Naturiaethwr (Cyfres 2, Rhif 10, Gorffennaf 2002, tud. 27), sef adnabod y gwrthrych a'r bardd mewn 14 o ddyfyniadau. Daeth nifer o atebion i law ac enillwyd gwobrau gan:

Arfon Hughes, Bwlchtocyn, Llŷn

Miss L J Roberts, Dolwen, Abergele

Miss Mair Williams, Ysceifiog, Treffynnon

Diolch i Lun Roberts am osod y gystadleuaeth.

Dyma'r atebion:

- |                   |                  |
|-------------------|------------------|
| 1. Gwenoliaid     | T Gwynn Jones    |
| 2. Cudyll Coch    | I D Hooson       |
| 3. Aderyn Du      | T R Howells      |
| 4. Llwynog        | I D Hooson       |
| 5. Clychau'r Gog  | R Williams Parry |
| 6. Daffodil       | I D Hooson       |
| 7. Eirlysiau      | Cynan            |
| 8. Glas y Dorlan  | Trebor Roberts   |
| 9. Y Gog          | Roger Jones      |
| 10. Blodau'r Grug | Eifion Wyn       |
| 11. Y Creyr Glas  | James Nicholas   |
| 12. Y Ddraenen    | Berllanydd       |
| 13. Y Dderwen     | Donald Evans     |
| 14. Yr Ystlum     | Cyril Jones      |



# Llun pwy?

Dyma lun o'r panel fu wrthi'n ateb cwestiynau'r gwrndawyr ar y rhaglen 'Seiat Byd Natur' yn ôl yn y 60au a'r 70au.

Faint o'r pedwar fedrwch chi eu henwi?  
Oes gennych chi atgofion i'w rhannu?  
Anfonwch ataf (dim mwy na 200 gair).  
Bydd gwobr am y llythyr gorau.



Cystadleuaeth Rhif 10

Yr ateb oedd Linnaeus ac mae'r wobwr yn mynd i Keith Lewis am lythyr campus.

2 Wynn Drive  
Hen Golwyn  
Conwy LL29 9DE  
Tachwedd 10, 2002

Annwyl Goronwy

Wele ateb i'r gofyniad 'Pwy yw hwn?' yn rhifyn cyfredol Y Naturiaethwr . Y gŵr yn y llun yw'r llysiuwydd enwog o Sweden, Carl von Linné, sy'n fwy adnabyddus wrth ffurf Lladin ei enw sef Linnaeus. Ef yw tad y wyddor o ddisbarthu ac enwi pethau byw sy'n rhoi i bob peth ddau enw (y drefn binomial) sef y genus a'r species (rhywogaeth), y naill yn cysylltu'r gwrthrych a'i berthynas(au) agosaf a'r llall yn disgrifio rhyw nodwedd arbennig ohono. Lladin, wrth gwrs, yw'r iaith a ddefnyddir. Fel y gwyrddoch, mae rheolau caeth a chymhleth wedi datblygu ynglŷn ag enwi planhigion ac anifeiliaid a hynny er mwyn safoni'r enwau yn fyd-eang a chydabod blaenoriaeth yr awdurdod cyntaf i ddefnyddio'r enw.

Cyfraniad pennaf Linnaeus yw llyfr swmpus a gyhoeddwyd ym 1753 sef Species Plantarum sy'n rhestru enwau'r holl blanhigion oedd yn wybyddus trwy'r byd yr adeg honno gan roi i bob un ddau enw'n ôl ei ddull arloesol ef o enwi. Hwn yw man cychwyn enwau planhigion a gwnaed unrhyw enwau blaenorol yn annilys. Wrth gwrs, bathwyd llaweroedd o enwau wedi hynny a maent i gyd yn cydymffurfio â'r drefn Linnaeaidd.

Bu farw Linnaeus yn 72 oed a'i gladdu yn Uppsala, Sweden wedi ennill bri mawr iddo'i hun a chael anrhydeddau lu. Clywais fod rhai o aelodau'r Gymdeithas wedi bod yn moesymgrymu wrth ei fedd yn ddiweddar iawn! Bu'n cofnodi ac yn ysgrifennu'n helaeth ar hyd ei oes a gadawodd swmp o weithiau ar ei ôl. Un ffaith ddoniol a ddarllenais amdano oedd ei fod wedi troi, yn ei ddyddiau blin, at ddarllen ei weithiau ei hun a'i fod



yn ymgolli'n llwyr ynddynt ac yn bloeddio mewn rhyfeddod at athrylith y gosodiadau a ddarllenai, heb gofio mai ef oedd eu hawdur!

Diolch am y cliw yn y llun sef y blodyn yn ei law. Hwn yw'r blodyn y rhoddodd ei enw iddo: *Linnaea borealis* Blodyn Deuben (neu'r Gefellflodyn). Blodyn bychan, manwl, lliw pinc golau yw gyda dau flodyn fel gefeilliaid ar ben coes fain. Yn ôl y sôn, roedd hwn yn un o'i hoff flodau a dewisodd roi ei enw iddo am ei fod, meddai ef, 'yn eiddil a gwanllyd, ac yn caru'r cysgodion fel ef ei hun'. Mae'n brin eithriadol yn Ynysoedd Prydain ac yn gyfyngedig i ychydig goedwigoedd pîn yn nwyrain yr Alban. Mae'n fwy cyffredin yn y gwledydd Sgandinafaidd ac yng Ngogledd America.

Yn ddiddorol iawn, deuthum ar ei draws yn hollol ddiarwybod tra ar wyliau gydag aelodau'r Gymdeithas yn y Swistir yr haf diwethaf. Wedi mynd am dro roeddwn gyda Gwenan a Mary i ddangos iddynt y tegeirian prin *Cypripedium calceolus* Esgid Mair mewn coedwig heb fod ymhell o Davos. Canfod hwnnw a mynd ymlaen ymhellach a tharo ar beth wmbreth o *Listera cordata* Caineirian bach ynghanol pentwr o rug ar fin y llwybr. Wrth rannu'r grug i gael golwg agosach, gwelem flodyn bychan gwyn, tebyg i Suran y coed, yn tyfu trwyddo. Sylwom fod dau flodyn ar ben bob coes a gwyddem ar unwaith mai blodyn Linnaeus oedd yna gan i mi weld lluniau ohono lawer gwaith. Mawr oedd fy llawenydd! Nid yw'n arbennig o brin yn y Swistir a'i gynefin naturiol, yn ôl y llyfrau, yw o dan rug neu'n tyfu trwy fwsog mewn lle cysgodol; felly dim syndod!

Cofion

Keith

## Beth am hysbysebu?

**Mae'r Naturiaethwr yn cyrraedd oddeutu 3,000 o ddarllenwyr ddwywaith y flwyddyn.**

**Tudalen lawn £100**

**1/2 tudalen £50**

**1/4 tudalen £25**

Cysylltwch â'r swyddog hysbysebion: Mrs. Heulwen Bott, Orchard Croft, Hill Road North, Helsby, Cheshire WA6 9AF (01928) 723351  
neu â'r Golygydd.



# Dod i nabod ein gilydd

## Dewi a Howard

gan Dafydd Dafis, Rhandirmwyn, Sir Gaerfyrddin



Dewi Jones

Dau gyfaill agos, dau gerddwr cadarn, dau garwr yr awyr agored, dau arweinydd da, dau aelod ffyddlon o'r Gymdeithas.

Tarddodd y ddau o'r un cefndir cymdeithasol, y ddau yn feibion i lowyr a'r ddau yn treulio eu bachgendod yn y cymoedd glo, Dewi

Jones ym mhentre Pontyberem, Sir Gaerfyrddin a Howard Lloyd ym Maesteg, Sir Forgannwg. Gyda threigl amser, roedd y ddau i gwrdd yn nhre Caerfyrddin lle roedd Dewi yn optegydd a Howard yn ddarlithydd ymarfer corff yng Ngholeg y Drindod. Cyn iddynt gwrdd â'i gilydd, roedd y ddau wedi datblygu'n gerddwyr o fri, Howard o fynd â phartion o fyfyrwyr i ddringo mynyddoedd Cymru a Dewi o droedio mynyddoedd Cymru ac Iwerddon ar ei ben ei hun ac fel aelod o Glwb Mynyddda Cymru. Cyn iddynt gyd-gerdded yr ucheldiroedd, roedd Dewi eisoes wedi dringo pob mynydd dros 3,000 troedfedd (914 m) yng Nghymru, cyn troi ei sylw a choncro'r gweddill oedd dros 2,000 troedfedd (610m) yng Nghymru. Ar gais Howard, ymunodd Dewi â phartion dringo Coleg y Drindod a chafodd y ddau ohonynt bleser mawr yn arwain darpar athrawon ar deithiau gan gynnwys partion o fyfyrwyr o'r Unol Daleithiau.

Pan oedd yn ŵr ifanc, bu Howard yn chwarae canolwr yn nhim rygbi Maesteg, neu'r Hen Blwyf fel y'i gelwir gan y trigolion. Mae'r safle hwn ar y maes rygbi'n un delfrydol i'r sawl sydd â chorff cryf, cyhyrog, cyflymdra yn ei redeg ac



Howars Lloyd

wedi'i freintio â'r medrusrwydd cynhenid i drafod pêl hirgron, nodweddion y bendithiwyd Howard â nhw. Aeth ymlaen yn ei dro i chwarae'r gêm dros Sir Forgannwg, Headingley, y Fyddin a Llanelli, timau o'r radd flaenaf. Ond,

mae gan Howard

ddiddordeb mewn amryw o gêmiau: yn ogystal â chyfieithu rheolau'r gêm rygbi ar gyfer Undeb Rygbi Cymru, cyfieithodd reolau pêl droed a hoci i'r Gymraeg. Clywyd ei lais yn fynych ar y radio yn y rhaglen *Maes Chwarae*, llais tawel, clir a melodaidd sy'n swyno'r glust. Nid rhyfedd felly ei fod wedi'i ddewis i ddarllen llyfrau ar dâp i'r deillion.

Mae'n debyg bod lle i Howard yn hanes chwaraeon yng Nghymru gan mai ef oedd golygydd y llyfr cyntaf yn y Gymraeg ar chwaraeon, sef *Crysau Cochion* a gyhoeddwyd gan Llyfrau'r Dryw ym 1958. Yn y llyfr hwn, ceir tîm o ugain o gyfrannwyr, gan gynnwys Howard ei hun, yn cyflwyno ysgrifau, portreadau a storiau o'r meysydd chwarae, llawer ohonynt wedi gwisgo'r crys coch yn eu gyrfaoedd. Maent yn cynnwys pobl fel: Dr Thomas Richards, cyn-lyfngellydd Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, ar y bêl droed; Carwyn James, maswr enwog Cymru a Llanelli ar rygbi; W E Jones, sef 'Wil Bach Ni' o Gaerfyrddin, ar griced; Eic Davies, y cyntaf i roi disgrifiad ar y pryd o gêm rygbi ar y radio; Emyr Griffith ar 'Dai Bach y Golffwr' ac yn y blaen. Casgliad difyr iawn. Ym 1967, cyhoeddwyd *Chwarae Teg* gan Lyfrau'r





Dryw. Yn y llyfr hwn gan Howard, mae'n delio â Paffio, Rygbi, Criced, Pêl Droed, Jai-alai neu belota, Tennis, Nofio, Golff ac Athletau. Gwelwyd *Cricedwyr Cymru* ganddo ym 1984 a'r cyhoeddwr oedd Gwasg Gomer. Ei lyfr diweddaraf yw *Troedio Cymru* Gwasg Gomer 1990 sy'n manylu ar deithiau cerdded yn ne-orllewin Cymru. Yn ei ddiolchiadau ar ddechrau'r llyfr hwn, mae'n talu'r deyrnged hon i Dewi: "Diolch yn fawr iawn yn anad neb i Dewi Jones, fy nghyfaill a'm cydymaith ar bob un o'r teithiau hyn ac am gannoedd o rai tebyg". Â ymlaen i sôn am wybodaeth Dewi o dirlun Cymru gyfan a'i fedr i adnabod pob pant a bryn yn y pellter a'i allu rhyfeddol i wybod y ffordd i fynd mewn niwl neu eira fel nad yw byth ar goll: "pe rhoddid ef gyda mwgwd ar ei wyneb yn y Sahara mewn storm dywod, deuai o hyd i'r bwlch 'tua thre'" meddai Howard amdano. Gwelsom fod gan Howard ddiddordeb mewn gêmiau a mabolgampau ond mae ochr arall iddo hefyd. Caiff bleser o ddarllen ac mae'n ymddiddori mewn llenyddiaeth Gymraeg. Mae hanes lleol yn ei ddiddanu a tharddiad geiriau ac enwau lleoedd yn ei lanw â chwilfrydedd. Mae ganddo'r amynedd i ddilyn trywydd nes iddo ddatrys unrhyw broblem sy'n ei boeni.

Cymer Dewi ddiddordeb gwyddonydd yng nghreigiau Cymru, sy'n egluro pam mae'n aelod o Gymdeithas Ddaeareg De Cymu. Mae'n mynychu ei chyfarfodydd maes yn gyson yn ogystal â mynd i'r darlithoedd a drefnir ganddi. Mae ganddo ddiddordeb eang ym myd natur, yn enwedig mewn blodau, coed, adar a thrychfilod. Mae glendid yr amgylchedd a'r angen am gadwraeth natur yn bwysig iddo. I'r perwyl hwn, ymaelododd ag: Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Coed Cadw, Ymddiriedolaeth Barcudiad Cymru, ac yn olaf ond yn bennaf iddo fe, Cymdeithas Edward Llwyd – ymunodd ef a Howard ym mlwyddyn gyntaf y Gymdeithas. Mae Dewi hefyd yn aelod o Gymdeithas y Cerddwyr ac yn gyn-aelod o Glwb Mynydda Cymru.

Mae un profiad a gafodd Dewi ar y mynydd yn dal yn ei gof ac, wrth sôn am yr achlysur arbennig hwn, mae ei lygaid yn goleuo a'i gorff yn bywhau. Yn gynnar ar fore o haf, roedd yn cerdded ar ei ben ei hun ar hyd y llwybr serth sy'n arwain at gopa Bannau Sir Gâr. Roedd yn dringo trwy niwl trwchus ond pan oedd yn nesau at Bwa'r Llyn (y llwybr sy'n rhedeg wrth ymyl y cafn o gwmpas Llyn y Fan Fach), torrodd drwy'r niwl i olwg yr haul. Trodd ei gefn at yr haul i edrych i lawr i gyfeiriad y llyn, rhyw bedwar can troedfedd oddi tan y creigiau o dywodfaen coch sy'n arglwyddiaethu ar y llyn. Yn lle gweld y forwyn a welodd Rhiwallon gynt yn codi o'r dyfnderoedd, yr hyn a welodd oedd cysgod cawr o ddyn ar wyneb y niwl oddi tano ac yn amgylchynu'r cawr, roedd cylch o liwiau'r enfys. Wrth adrodd yr hanes, mae'n cyfaddef iddo gael ei ddychryn gan yr hyn a welodd. Bwgan Brocken yw'r enw a roir ar y ffenomen pan fydd yr haul yn taflu cysgod dyn ar y niwl neu'r cwmwl oddi tano a chreu cylch o liwiau'r enfys o gwmpas y cysgod. Yn aml, mae'r cysgod yn llawer mwy na'r unigolyn sy'n ei wyllo. 'Brocken' efallai am mai ar binacl uchaf mynyddoedd Hartz yn nwyrain yr Almaen y gwelwyd hyn gyntaf.

Erbyn hyn, mae Dewi yn 87 oed a Howard yn 84 oed. Wedi i gyflwr iechyd Howard waethygu, cafodd ei dderbyn gan gartref Castell Tywi sydd rhyw dair milltir o Gaerfyrddin ar y ffordd i Gydweli. Er nad yw Dewi yn mynd ar deithiau hir ac anodd bellach, mae un lle y mae'n teithio iddo ddwy waith yr wythnos yn ddiffael - a hwnnw yw Castell Tywi i gasglu Howard yn ei gar a mynd ag ef i lan y môr neu i berfedd cefn gwlad. Mae'r cyfeillgarwch yn dal yn gadarn.



# Nodiadau Natur

## 1. Mamaliaid

Mae'r diddordeb yn y Dolffin Trwyn Potel ym Mae Ceredigion yn parhau. Yr haf diwethaf, trefnwyd cyrsiau yn y Cei Newydd gan y Gymdeithas Mamaliaid a'r 'Sea Watch Foundation' i astudio'r dolffiniaid. Cymerwyd rhan mewn ymchwil gwyddonol a chasglwyd gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol wrth warchod y dolffiniaid a'r llamhidyddion ym Mae Ceredigion. Mae'r dolffiniaid yn brysur yn y gogledd hefyd. Bum yn ddigon ffodus i weld 6 Dolffin Trwyn Potel ger Fedwr Fawr, Llangoed, Ynys Môn a dywed Sally Pidcock, Warden Parc Gwledig Pen y Gogarth, fod hyd at 20 o ddolffiniaid gyda'u cywion i'w gweld ger y Gogarth yn ystod misoedd Awst a Medi. Sylwodd fod eu nifer wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ar draeth Cwmtudu ychydig i'r de o'r Ceinewydd, pleser oedd gweld bod Morlo Llwyd yn ddigon cartrefol i fwrw cyw ar y traeth yn ystod mis Medi. Mae'r cywion yn ddiymadferth am dair wythnos ac mewn cryn berygl ar y traeth, ond cafodd hwn ei warchod gan wardeniaid lleol hyd nes iddo fentro i'w gynefin yn y môr. Am fwy o wybodaeth, gweler cwmtudu-bay-wildlife.org.uk.

Yn y rhifyn nesaf, gobeithiaf sôn am arolwg ynglŷn â'r Ffwlbarth a'r Minc. Yn y cyfamsers, mae llyfryn newydd ar gael am ddim '*Polecats and Ferrets: How to tell them*

apart", oddi wrth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, 01248 351514.

Gofid i Sarah Jones o'r Ymddiriedolaeth oedd dod ar draws dyfrgi wedi'i ladd ar y ffordd ger Pen y Pass yn Eryri. Dyfrast (benyw) yn llaetha oedd hon ac yn magu cywion. Mae'n amlwg bod dyfrgwn yn symud dros y mynyddoedd o un cynefin i'r llall yn amlach nag y tybiem.

Mae'r Gymdeithas Mamaliaid newydd gyhoeddi canlyniadau ei harolwg i effaith hela ar nifer y llwynogod. Dengys yr adroddiad yn glir nad yw hela'n chwarae rhan o gwbl mewn rheoli nifer y llwynogod. Yn wir, mae'r canlyniadau'n cryfhau'r ddadl bod llwynogod yn rheoli eu niferoedd eu hunain, a bod pob ffurf ar gwloni'n llai pwysig nag a dybid. Yn ystod clwy'r traed a'r genau, gwaharddwyd hela a chyfyngwyd ar y dulliau eraill o reoli llwynogod. Eto'i gyd, er gwaethaf y gwaharddiad a'r cwtogi ar bob math o weithgareddau cefn gwlad, ni bu cynnydd na lleihad yn nifer y llwynogod. Efallai y bydd hyn yn rhoi blas mwy gwyddonol i'r ddadl ynglŷn â hela.

Cofiwch gysylltu os gwelwch rywbeth o ddiddordeb.

Frances Cattanach

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd  
Cymru

01248 351514

neu e-bost: fcattanach@cix.co.uk



## 2. Trychfilod

### *Y Cricedyn Cennog*

Y Cricedyn Cennog (Orthoptera: *Pseudomogoplistes vicentae*), Scaly Cricket, yw un o'r trychfilod mwyaf nodedig ym Mhrydain. Daethpwyd o hyd iddo gyntaf mor ddiweddar ag 1949 ar Chesil Beach, Sir Dorset. Un fenyw a gafwyd y tro hwnnw ac aeth 28 mlynedd heibio cyn dod o hyd i'r gwryw cyntaf. Am flynyddoedd credid mai creadur tramor wedi'i gyflwyno i Brydain oedd, gan ei fod wedi'i ddarganfod hefyd ym Mhortiwigal ac ardal Môr y Canoldir. Am yn agos i 50 mlynedd, tybid mai Chesil Beach oedd ei unig safle ym Mhrydain a chan ei fod yn byw ymysg y graean, a fawr neb yn ei weld, ni wyddom fawr o ddim am ei fywyd. Gosodwyd trapiau ym 1995 a gwelwyd bod y Cricedyn Cennog yn gyffredin ar draeth Chesil ac ymddengys ei fod yn hel ei damaid gyda'r nos ymysg y gwymon a'r pydredd ar y traeth. Mae'r gwrywod llawn dwf yn 8-10mm o hyd a'r benywod yn 10-13 mm gyda wyddodydd (ovipositor) sy'n 5mm o hyd. Maent yn llwyd-frown mewn lliw, gyda chen mân dros y corff a'r coesau. Does gan y Cricedyn Cennog ddim adenydd ac nid yw'n grillio (stridulate).



Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, daethpwyd o hyd i'r Cricedyn mewn amryw o safleoedd newydd, yn gyntaf ar ynys Sark gan Peter ac Eileen Brown ar eu gwyliau o Sir Benfro ac yna yn

Branscombe, Dyfnaint gan fyfyrwr yn archwilio graean y traeth. Ym 1998, gwelwyd rhai yn Granville, Normandi. Cafwyd adolygiad o'r darganfyddiadau hyn gan Peter Sutton (British Wildlife, Chwef. 1999, 145-151 The Scaly Cricket in Britain – a complete history from discovery to citizenship) a daeth i'r casgliad fod y Cricedyn Cennog yn greadur brodorol, wedi goroesi ar draethau graean addas, ond cwbl arwahân i'w gilydd am 8000 o flynyddoedd.

Ym 1999, daeth Cymru i'r darlun pan ddaeth plentyn o hyd i rai ar ddamwain, ar draeth Marloes yn Sir Benfro – yn ffodus, gwyddai ei dad rywbeth am entomoleg. Yng Ngorffennaf 2001, gwelwyd hwy gan Greg Jones, cofnodwr yr Orthoptera ym Morgannwg ac mae Peter Brown hefyd wedi bod yn cadw golwg arnynt. Er mwyn adnabod y gwahanol rywogaethau, mae'n rhaid cael gwrywod a bydd yn ddiddorol cymharu gwrywod Sir Benfro gyda rhai Dyfnaint, Dorset, Sark a mannau eraill. Gan nad yw'r pryf yn gallu hedfan, mae'n annhebyg iawn eu bod wedi cyfarfod am filoedd o flynyddoedd. Ond hyd yma, ni chafwyd yr un gwryw o Sir Benfro. Ym mis Gorffennaf 2002, bu Peter Brown yn helpu i gasglu ychydig o'r benywod (a gwelwyd rhai ifanc) o Sir Benfro ac o Sark. Yn ddiweddarach, casglwyd ychydig o Chesil ac o Branscombe. Felly, erbyn hyn, mae gennym sbesimau o'r holl boblogaethau ar y tir mawr ac o Sark ar gyfer dadansoddiad DNA.

Yn y cyfamser, rydym wrthi'n ceisio dal un o'r gwrywaidd Cymreig prin – ond efallai na chawn afael ar un cyn 2003.

Mike Wilson  
Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru,  
Caerdydd



# Wyddoch chi?

- fod diwydiant WYSTRYS (oysters) llwyddiannus yng Nghymru rhyw gan mlynedd a hanner yn ôl. Ym 1863, roedd tua 90 o gychod yn eu pysgota yn ardal Abertawe yn unig, gyda physgodfeydd eraill yn sir Benfro, Bae Caerfyrddin ac yn Afon Menai. Pan ddaeth y rheilffyrdd ehangwyd y marchnadoedd, bu gor-bysgota a dirywiodd y diwydiant yn gyflym. Yn ddiweddar, bu deifwyr o'r Cyngor Cefn Gwlad yn archwilio'r arfordir a chafwyd wystrys mewn sawl lle ym Mae Aberdaugleddau yn sir Benfro. Mae ymgyrch ar droed i'w gwarchod gan obeithio cynyddu'r cyflenwad.
- fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn ystyried nodweddion cadwriaethol y safle, wrth drefnu'r maes. Yn y Bala ym 1997, newidiwyd rhywfaint ar osodiad y maes i gymryd archaeoleg y safle i ystyriaeth ac yn Nhyddewi eleni gwnaed trefniadau i osgoi safleoedd nythu'r ehedydd.
- fod planhigyn newydd o deulu'r Marchrawn wedi'i ddarganfod yn sir Fôn yn ddiweddar. Croesryw (hybrid) yw rhwng Marchrawn yr Ardri

Equisetum arvense a'r Marchrawn Mawr *Equisetum telmateia*. Mae wedi'i enwi *Equisetum X robertsii* er anrhydedd i R H Roberts, y botanegydd o Fangor.



Penigan y Porfeydd.  
*Dianthus armeria* yn yr Hendre, Sir Fflint.

• beth yw Dianthus armeria? Efallai mai dyma'r planhigyn gwyllt prinnaf yng Ngogledd Cymru. Mae'n tyfu ar gyrion chwarel ym mhentref Hendre ger Yr Wyddgrug. Yn yr 1920au credid ei fod wedi

diflannu am byth ond ym 1994, fe'i gwelwyd eto, ond mae'n hynod o brin. Tybed faint o bobl sy'n gyfarwydd â'i enw Cymraeg – Penigan y Porfeydd? Yr enw Saesneg yw Deptford Pink. Ar hyn o bryd, mae gwaith ar y gweill i rwystro'r llwyni a'r drain rhag tagu'r cynefin – mae'n rhaid i'r Dianthus gael tir agored a digon o le i anadlu!

# Llythyrau

Llys Helyg  
Pelcomb  
Hwlfordd  
Sir Benfro  
30 Awst 2002

Annwyl Goronwy

Un o chafsbwyntiau taith Eisteddfod Tyddewi eleni oedd gweld y Llandag (*Cuscuta epithimum*) yn tyfu ar yr eithin wrth ymyl Llwybr yr Arfordir rhwng Porthlisgy a Phorthclais. (amgaeaf lun ohono gan Siân Bowen) Gwn mai parasiteit yw ond hoffwn wybod a yw'n niweidiol i dyfiant yr eithin.

Rwyf hefyd wedi clywed gan un neu ddau o'r aelodau eu bod wedi'i weld mewn mannau eraill ond bob tro yn agos i'r môr. A yw hyn yn un o'i nodweddion neu a yw'n medru ffynnu mewn cynefinoedd eraill?

Cofion gorau


John Lloyd Jones







Y Llandag yn tyfu fel parasite ar yr eithin. Porthclais, Sir Benfro, Awst 2002 Llun: Siân Bowen



Diolch am y llythyr.

Mae'r Llandag yn weddol gyffredin yn ne Lloegr ond yn brin iawn yng Nghymru. (gweler y map) Planhigyn unflwydd yw sy'n byw fel parasite yn bennaf ar eithin, grug a'r teim gwyllt. Does ganddo ddim dail na dim cloroffyl, felly, mae'n gwbl ddibynol ar ei blanhigyn cynhaliol am ei faeth. Dwn i ddim a oes unrhyw un wedi ceisio mesur effaith y Llandag ar yr eithin, ond, hyd y gwn i, does fawr o niwed i'w weld. Fodd bynnag, mae'r Llandag yn gallu ymosod ar gnydau amaethyddol ledled y byd a'r enghraifft bwysicaf yw cnydau o feillion, a chaiff ei ystyried yn chwynnyn niweidiol.

*Gol*

Prif gynefin y Llandag ym Mhrydain yw rhostir, twyndir calchog a glaswelltir ar dwyni'r arfordir.  
Map: Dosbarthiad y Llandag ym Mhrydain  
O *New Atlas of the British and Irish Flora 2002*



## MELINAU GWYNTYNG NGHYMRU

### Annwyl Olygydd

Mae cryn drafod wedi bod yn y wasg a chyfryngau eraill yn ddiweddar am yr hyn a elwir yn gynhesu byd-eang. Un canlyniad yw i Senedd Westminster a Chynulliad Cymru argymhell a chefnogi polisiau i gynyddu (ar) ein gallu i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddol. Gwneir hyn er mwyn lleihau (ar) y maint o garbon diocsid sy'n cael ei gynhyrchu'n gynyddol gan y pwerdai sy'n llosgi glo, olew neu nwy. Dywedir mai'r cynnydd yn y carbon diocsid yn yr atmosffêr sy'n bennaf gyfrifol am y cynhesu cyffredinol sy'n fesuradwy ar draws y blaned. Adroddir bod codiad o oddeutu 0.50C, ar gyfartaledd, wedi digwydd yn y tymheredd yn ystod y ganrif ddiwethaf ac effeithir o'r herwydd ar y tywydd mewn modd amrywiol ar draws y byd. Daranogir gan rai, gyda chymorth dulliau modelu cyfrifiadurol o'r tywydd ac o'r hinsawdd, mai gwaethygu a wna pethau oni leiheir ar y cynhyrchu nwyon effaith tŷ gwydr fel y'u gelwir.

Serch hyn, mae'n briodol atgoffa ein hunain i amrywiaethau mawr 'naturiol' ddigwydd yn y tywydd a'r hinsawdd dros y cannoedd a'r miloedd o flynyddoedd diwethaf cyn y cyfnod diweddar. Nid yw'n bosibl bod yn gwbl bendant bod modd priodoli'r amrywiaethau tywydd diweddar yn uniongyrchol i'r codiad yn lefel y nwyon effaith tŷ gwydr. Peth cymhleth iawn yw'r tywydd a phrin yw ein gwybodaeth bendant am gysylltiadau achos ac effaith yn newidiadau hinsoddol dros y degawdau diweddar. Ffactor pwysig iawn, er enghraifft, yw dylanwad newidiadau tymheredd yn a thros y cefnforoedd a bychan yw ein dealltwriaeth yma eto. Nid oes cytundeb byd-eang ar y materion hyn ac mae'n bur amheus bod y camau ymarferol a derbyniol a gymerir ar droedd prin Cymru fach, yn debyg o gael fawr o effaith mesuradwy ar y sefyllfa. Dyna fy marn i o leiaf.

Effaith gweithredu polisiau gwleidyddol y Senedd a'r Cynulliad ar Gymru yw caniatáu codi nifer da, mwy na'i siâr yn wir, o safleoedd melinau neu dyrbinâu gwynt ar droedd hwnt ac yma. Galwaf y rhain yn ffatrioedd gwynt yn hytrach na ffermydd gwynt gan eu bod yn ymwthiol o fawr, yn gwbl estron i'r tirwedd ac yn amlwg yn ddiwydiannol eu natur. Rhoddir cymorthdal gan y Llywodraeth (h.y. arian y trethdalwr) i godi'r ffatrioedd hyn er eu bod yn eithaf aneffeithiol gan y cyfrifir y bydd y tyrbinau yn troi ac yn gynhyrchiol am lai na thrydedd ran o'r amser dichonadwy a bychan ac ansicr, o gymharu â'r galw, yw maint ac amseriad y cynnyrch. Lleolir 14 o'r ffatrioedd hyn yng Nghymru yn barod gyda 13 arall yn y system gynllunio neu wedi derbyn caniatad cynllunio. Bwriedir hefyd codi ffatri arall, enfawr o'r enw Cynllun Camddwr ar fynydd-dir hyfryd yn ardal Llyn Brianne a Soar y Mynydd ac i'r Gogledd. Deil y rhan fwyaf o bobl bod prydferthwch Canolbarth Cymru yn ei godi i lefel statws Parc Cenedlaethol ond nid yw ystyriaethau felly yn rhwystr i'r datblygwyr a'u cefnogwyr nac i'r rhannau hynny o Lywodraeth sy'n rhoi caniatad cynllunio i'r projectau. Dywedir bod gennym eisoes yng Nghymru fwy na 40% o'r holl dyrbinâu gwynt yn y Deyrnas Unedig ond dim ond 5% o'r boblogaeth!

Trafodwyd y materion hyn gan Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Edward Llwyd a chan Bwyllgor yr Amgylchedd, yr olaf dan gadeiryddiaeth Arwel Michael. Cefnogwyd y gwrthwynebiad i godi ffatri wynt ar Fynydd Hiraethog – cynllun a dynnwyd yn ôl yn ddiweddarach, yn dilyn gwrthwynebiad cryf lleol. Barn y Pwyllgor Gwaith yw y dylid cefnogi dulliau creu ynni adnewyddol yn gyffredinol os na fydd y dulliau a ddefnyddir yn andwyol mewn modd pwysig i dirlun neu i fyd natur Cymru. Rydym yn gwrthwynebu sefydlu rhagor o brojectau melinau gwynt sydd ar raddfa fawr neu'n ymwthiol o ran eu golwg ar dir uchel ac ar arfordiroedd neu mewn unrhyw fath o werth arbennig lleol,



cededlaethol neu ryng-genedlaethol.

Hoffwn dynnu sylw aelodau'r Gymdeithas at erthygl o eiddo ein Llywydd, Dafydd Dafis, sy'n trafod cynllun arfaethedig y Camddwr. Yma, bwriedir codi 165 o felinau gwynt gyda phob un yn cyrraedd uchder o 120 metr (tua 400 troedfedd) uwchlaw'r tir ar gribau bryniau'r ardal. Mae Dafydd yn cyflwyno darlun effeithiol iawn o swyn a rhin yr unigeddau gogoneddus hyn ac yn ofni'r canlyniadau adfydus a fyddai'n dilyn mabwysiadu'r project. Dyma'r anialdir olaf yn Neheudir Prydain. Cyhoeddwyd yr erthygl gyda'r teitl 'Bygythiad i Ganolbarth Cymru' yn rhifyn Gwanwyn 2002 o'r Cylchgrawn Cymru Wledig/Rural Wales, sef Cylchgrawn Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/Campaign for the Protection of Rural Wales.

Yn yr un rhifyn o Cymru Wledig, gwelir ysgrif gan Ymgynghorydd Tirlun YDCW, G Sinclair, sydd wedi ymddangos mewn nifer o Ymchwiliadau Cyhoeddus yn ymwneud â phrojectau tyrbeini gwynt. Methwyd â sicrhau Ymchwiliad Cyhoeddus i gynllun Cefn Groes yng Nghanolbarth Cymru er mai dyma'r cynllun mwyaf eto sydd wedi derbyn caniatad a hynny trwy law Gweinidog Ynni y DU sef Brian Wilson. Rhoddir y bai ar ysgwyddau'r Cynulliad a Chyngor Cefn Gwlad Cymru na chododd y naill na'r llall, lais o wrthwynebiad. Disgwylir felly gweld codi 39 tyrbin enfawr o uchder 100 metr (320 troedfedd) yr un ar dir uchel ger Pontarfynach. Gwrthwynebwyd projectau mawr fel hyn gan nifer o gyrff (gan gynnwys YDCW), grwpiau ac unigolion. Mae'r colofnau llythyrau yn y papurau newydd lleol ac yn y Western Mail yn amlygu safbwyntiau'r ddwy ochr yn gyson gyda'r gwrthwynebwyr at ei gilydd yn fwy niferus ac yn fwyaf synhwyrol!

Ar ôl darllen yr uchod, os bydd rhai o aelodau'r Gymdeithas yn dymuno cynorthwyo yng ngwaith Is Bwyllgor yr Amgylchedd, bydd croeso mawr iddynt. Nid oes yn rhaid bod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith cyn ymuno â'r Is Bwyllgor. Rhowch ganiad i Gadeirydd yr Is Bwyllgor, Arwel Michael, ar 01639 844080 os gallwch fod o gymorth mewn unrhyw ffordd.

Yn gywir iawn

W Brian L Evans



Annwyl Olygydd,

Yn ystod fy mhlentyndod yn Sir Fôn, yr unig fochyn daear a welwn oedd un mewn llyfrau plant. Rhaid oedd i mi ddisgwyl nes cyrraedd oed pensiwn cyn gweld un a hynny am ychydig eiliadau yn unig yng ngolau lampau'r car. Erbyn heddiw, yn drist iawn, peth cyffredin yw gweld sawl un yn gelain ar fin y ffordd. Mae hyd yn oed y ffordd ddeuol gyflym sy'n rhedeg ar draws Sir y Fflint ag arwyddion yn ein rhybuddio bod moch daear o gwmpas. Ond fedra i ddim dyfalu beth yw pwrpas yr arwyddion oherwydd byddai brecio'n galed i osgoi un, yn enwedig pan fo'r lôn yn wlyb, yn hynod o beryglus ac anghyfrifol.



Mae llawer yn gwrthwynebu'r arferiad o osod bwyd i ddenu moch daear at y ty'.

(Gol.)

broblem ofnadwy ar rai o'r ffermydd yn y cyffiniau wrth iddynt adael eu daearau yn y tiroedd garw a chrwydro i'r caeau. Yn aml, gwnânt ddaearau newydd yn y cloddiau a'r gwrychoedd gan gloddio twneli tan yr wyneb allan ychydig lathenni i'r caeau. Pwrpas y rhain yw galluogi'r mochyn daear i ddianc yn rhwydd. Ond, oherwydd bod y twneli wedi'u tyllu allan o ochr y clawdd, nid oes pridd ar yr wyneb i ddangos lle mae'r twll dianc. Gall buwch, felly, dorri ei choes yn hawdd yn un o'r tyllau. Yn waeth fyth, gall olwyn tractor suddo'n sydyn at ei hechel i mewn i'r twnneli gan droi'r tractor drosodd.

Cymaint yw'r cynnydd yn nifer y moch daear yn ein hardal ni, mae hyd yn oed wedi disodli'r llwynog fel lladdwr wŷn. Ar y dechrau, pan glywais ffermwyr defaid yn cwyno am hyn, rhaid i mi gyfaddef nad oeddwn yn barod i'w coelio. Ni fedrwn weld sut y gallai creadur byrgoes a thrwsgl fel y mochyn daear ddal oen. Ond, esboniwyd i mi nad oeddent yn rhedeg ar ôl yr wŷn o gwbl ond yn ymosod arnynt pan fyddan nhw'n cysgu gyda'r nos ym môn y clawdd. Ymddengys hefyd bod modus operandi y llwynog a'r mochyn daear yn wahanol. Mae'r llwynog yn ymosod gan amlaf ar y pen yn gyntaf ond â'r mochyn daear am y bol.

Ond, y prif reswm bod cymaint o ffermwyr yn elyniaethus i'r mochyn daear yw'r cydberthynas rhwng y cynnydd yn y nifer o foch daear a'r cynnydd blynyddol yn nifer y gwartheg sy'n dioddef o'r diciâu. Er bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn credu bod y cydberthynas yn un achosol, nid oes prawf o hynny hyd yn hyn. Mae'r Llywodraeth yn y

Er bod gen i deulu o foch daear sydd wedi byw ers blynyddoedd yn y coed ar y fferm, ni welais un yng ngolau dydd tan ychydig fisoedd yn ôl pan welais dri ohonynt un prynhawn yn dod i fyny'r ffordd drol at y tŷ. Serch hynny, roeddwn yn ymwybodol bod rhai o gwmpas oherwydd eu harfer o garthu mewn mannau dethol ym môn rhai o'r cloddiau. Hefyd, weithiau, gwnânt gryn lanast yn rhai o'r caeau wrth dyrchu am lyngyr daear yn y borfa.

Ar y cyfan, nid oes gen i fawr o le i gwyno gan nad ydynt wedi crwydro o'u cynefin yn y coed. Ond, maent yn





cyfamser yn ceisio cael tystiolaeth gadarn drwy gynnal arbrofion ond ni ddisgwylir canlyniadau'r rhain tan y flwyddyn 2004.

Fel un sydd wedi'i gyfareddu ers ei blentyndod gan holl fyd natur, yr wyf wrth gwrs yn erbyn y rhai sy'n mynnu'r hawl i hela er mwyn hwyl. Ond, ar yr un pryd, rwyf yn barod i gydnabod yr angen am reoli nifer y llwynogod a'r moch daear. Felly, credaf y dylid newid deddfwriaeth 1973 sy'n gwarchod y mochyn daear yn ddiagramodol i ganiatau i ffermwyr ddifa moch daear sydd wedi ymsefydlu yng ngloddiau'r caeau. Wedi'r cwbl, dylai diogelwch gweithwyr ar y tir ddod o flaen unrhyw ystyriaeth arall. Yn gywir iawn

*Elfed H Evans*

## Adolygiadau

### *The Distribution of the Hazel Dormouse in Wales*

**Jermyn, D L , Messenger, J E , Birks, J**  
**The Vincent Wildlife Trust, 3 & \$**  
**Bronsil Courtyard,**  
**Eastnor, Ledbury, Herefordshire HR8**  
**1EP (2001)**  
**D S; 40 tud. Pris £3**

Cofnod yw hwn o'r gwaith ymchwil a wnaed rhwng y blynyddoedd 1997 a 2000 i geisio darganfod tiriogaeth y pathew, *Muscardinus avellanarius*, yng Nghymru. Rhannwyd y wlad yn sgwariau 10km ac edrychwyd am olion y pathew mewn rhyw ddeg o lefydd addawol ym mhob sgwâr. Ond gynted ag y gwelwyd olion mewn un o'r sgwariau, gadawyd hwnnw a symud i'r sgwâr nesaf.

Gan mai dim ond ar ôl iddi dywyllu y mentra'r pathew allan i fwydo ar ffrwythau fel y mwyar duon a chnau cyll, nid peth hawdd yw canfod a yw'n bresennol yn yr ardal. Ond, yn ffodus, mae ganddo ddull arbennig o naddu twll bach crwn, at y cnewyllyn, yn y gneuen gollen ac felly,

defnyddid y cnau gweigion hynny fel prawf o'i bresenoldeb.

Yn ychwanegol, mewn rhai manau, gosodwyd trapiau wedi'u habwydo ag afal ar rai o'r coed i'w ddal. Rhoddwyd y rhain ar wahanol lefelau ac, er mawr syndod, darganfuwyd bod y rhai oedd 5m i fyny yn deirgwaith mwy effeithiol na'r rhai oedd yn 2m.

Cadarnhawyd bod y pathew i'w gael mewn 68 o'r 237 o sgwariau yng Nghymru. Mae hyn yn uwch nag yn yr ymchwil blaenorol, ddeng mlynedd ynghynt. Ond, nid yw hyn o reidrydd yn golygu bod y niferoedd wedi cynyddu ond bod y dulliau archwilio'n well, medd yr awduron.

Ceir ymdriniaeth o'r sefyllfa ym mhob un o'r hen siroedd ynghyd â mapiau dosbarthiad a gwelir bod y pathew yn fwyaf niferus yn siroedd Caerfyrddin a Mynwy a rhannau o'r canolbarth.

Credaf y byddai'r llyfryn academaidd hwn yn apelio'n bennaf at rywun sy'n cymryd diddordeb arbennig yn y pathew. Ceir crynodeb o'r canlyniadau yn y Gymraeg.

*Elfed H Evans*



## *Y Barcud*

**David B. Jones**  
**Gwasg Gomer 2002**  
**24 tud. £2.50**

Cyfrol fechan, ddwyieithog yw hon sy'n perthyn i'r gyfres Cip ar Gymru a gomisiynwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru. Mae gosodiad cyfochrog y testunau Cymraeg a Saesneg yn fodel o'r modd y dylid cyflwyno gwybodaeth ar y cyd yn y ddwy iaith ac mae'r graffigwaith, sy'n rhoi lle amlwg i luniau lliw deniadol a pherthnasol, yn ychwanegu'n sylweddol at apêl y gyfrol. Llwydda'r awdur i gyflwyno gwybodaeth am y barcud mewn modd trefnus ac apelgar gan gyfuno manylion am yr aderyn ei hun gyda ffeithiau diddorol am ei hanes ac am y ffordd y cafodd ei achub rhag

difodiant trwy ymdrechion rhai unigolion goleuedig. Roedd y bardd, R S Thomas, yn eu plith. Yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, er enghraifft, dim ond rhyw ddwsin o'r adar oedd ar ôl yng Nghymru. Heddiw, mae'r boblogaeth yn fwy na 200 o barau a dyfodol y barcud yn sicrach o gryn dipyn. Cyplysyr yr ymdriniaeth hon gyda'r dylanwadau amgylcheddol a effeithiodd ar y barcud a chyfeirir at y lleoliadau sy'n noddfa iddo yn y Gymru gyfoes. Honna'r gyfrol ei bod yn addas i bob oed, ond er bod graen ar y mynegiant, yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae natur yr iaith a chymhlethdod rhai o'r agweddau a drafodir yn golygu y byddai gofyn i blant ifanc gael cynhaliaeth oedolyn i'w llawn werthfawrogi.

*Gruff Roberts*

---

## *Y Fenai*

**Gwyn Pari Huws**  
**Ffotograffiaeth: Terry Beggs**  
**Gwasg Gomer 2002**  
**111 tud. llawn lluniau lliw**  
**(ISBN 1 84323 0844) £9.95 clawr meddal**

Nid y 'Fenai dlawd' a ddylanwadodd gymaint ar Twm Huws o Benyceunant i ymadael yng nghwmni ei frawd Roli sydd rhwng cloriau'r gyfrol hon. Yn hytrach, cawn ynddi holl gyfoeth amrywiol ei glannau mewn cyfres o dros gant a hanner o luniau lliw gan Terry Beggs – cyn bennaeth sefydliad yr 'Indefatigable' ym Mhlas Llanfair. Cawn ein tywys ar daith ar ei hyd yng ngofal Capten Gwyn Pari Huws a chawn sylwadau a gwybodaeth un sydd ganddo brofiad helaeth ohoni. Mae hon yn gyfrol gaboledig gan Wasg Gomer a gwnaed cyfiawnder ag ansawdd nodedig y lluniau gwreiddiol. Mae'r daith yn cychwyn 'efo'r llanw o'r gorllewin i'r dwyrain', o'r tŵr gwyn yn

Llanddwyn i dŵr du a gwyn goleudy Trwyn Du, Penmon. Tynnwyd rhai lluniau o'r afon i ddangos amrywiaeth o dirweddau, adeiladau a nodweddion diddorol y ddwy lan. Ceir hefyd luniau oddi ar y tir i ddangos gogoniant yr afon ei hun, weithiau yn disgleirio yng ngoleuni euraidd y wawr yn torri drwy rwydwaith dur Pont Britannia, weithiau yn hudol lonydd yn ddrych di-grych wrth y glannau. Arwahan i'r ewyn ar lan Porth Tŷ Mawr ar yr ail dudalen golygfeydd hafau hirfelyn tesog yw'r rhelyw or darluniau, gydag awyr las a chymylau gwlanog. Gresyn na fyddai ambell i lun yn dwyn i gof effaith y gwyntoedd cryfion o'r gorllewin fydd yn ysgubo'r tonnau yn dwmpathau gwylltion i drochi gerddi tai newydd y marina yn y Felinheli ac i wahardd trafndiaeth ar y ddwy bont. Un llun sy'n cyffwrdd â'r agwedd hon, llun o lwyni drain wedi plygu ar y tir mawr.

Yma a thraw yn y gyfrol, mae lluniau o ddiddordeb ymylol i ddarllenwyr Y Naturiaethwr: ychydig o flodau gwylltion,



effaith y llanw a'r gwynt ar gefnennau tywod, haenau'r garreg galch ym Mhenmon ac ati. Nid yw ansawdd rhai o'r lluniau hyn cystal â'r tirluniau deniadol sy'n britho'r tudalennau.

Dangosir enghreifftiau perthnasol o siartiau morwrol o waith Lewis Morris, un o'r brodyr amryddawn o Fôn, ynghyd â chopiau o siartiau'r morlys yn dangos dyfnderoedd y dŵr a manylion gwahanol arwyddion i forwyr. Ond nid yw dyluniad y map ar dud. 27, er yn ddiddorol, yn ychwanegu at ansawdd y gyfrol.

Mae'n amlwg bod yr awdur yn ymhyfrydu yn y culfor arbennig hwn ac wrth ei fodd yn rhannu ei ddiddordeb a'i wybodaeth efo'r darlennydd. Ond paham, bellach, gyfeirio at Felinheli fel Port Dinorwic, a hynny mewn print bras bedair gwaith, cyn egluro ar dud.43 mai'r Felinheli yw'r unig enw swyddogol ar y pentref. Mae'n hen bryd i siartiau'r morlys ac i'r marina bondigrybyll fabwysiadu'r enw swyddogol

y bu cymaint o ymgyrchu lleol i'w sefydlu flynyddoedd yn ôl. Oni fyddai pwt am darddiad yr hen enw o ddiddordeb ac nid oes sôn am y gaer fu'n gwarchod yr afon ger iard gychod Dinas (tud. 14) er nad yw'r llun yn dangos nemor ddim ond twmpath o goed. Tueddaf i gytuno â'r awdur mai o'r llecyn hwn y croesodd y Rhufeiniaid i Fôn er bod rhai haneswyr safonol yn mynnu mai ar draws Traeth Lafan ar ddistyll y digwyddodd hyn.

Dyma lyfr i'w fwynhau'n hamddenol, yn wledd i'r llygaid ac yn llawn o ffeithiau diddorol. Pwy a wyddai mai 'Sianel Gwŷr Nefyn' yw enw'r llwybr môr sy'n arwain i'r Fenai o'r gorllewin?

*Arfon Huws*



## Trelars i'r proffesiynol



### Does dim eilydd i'r gorau

*Am fwy o wybodaeth ymwelwch â gwefan*

**[www.iwt.co.uk](http://www.iwt.co.uk)**

*Dosbarthwyr ar draws Prydain ac Ewrop*



system dogelwch

#### **Ifor Williams Trailers Ltd**

Cynwyd Corwen Denbighshire LL21 0LB

Ffôn : **01490 412626**

Ffacs: **01490 413285**

e-bost: [sales@iwt.co.uk](mailto:sales@iwt.co.uk)



FM13224

*Gwneuthurwyr trelars blaenllaw Prydain*







# Diploma/MA



Ôl-Radd/Ôl-Brofiad mewn

## Rheolaeth Cefn Gwlad

Chwilio am waith ym myd cadwraeth?  
Angen hwb i'ch gyrfa?

Os oes gennych radd neu brofiad perthnasol mewn gwaith cefn gwlad neu ym myd yr amgylchedd, hwyrach mai'r cwrs hwn yw'r union beth sydd ei angen arnoch!

- Cwrs blwyddyn llawn amser neu rhan amser dros ddwy flynedd
- Cyfuno profiadau theoretig ac ymarferol
- Astudiaethau perswyl yn Eryri
- Hyfforddiant o ansawdd ardderchog
- Uchel ei fri ymysg darpar gyflogwyr

Rhoddir hyfforddiant arbenigol mewn partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Y Cyngor Astudiaethau Maes, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Cyngor Chwaraeon.

**Cefnogir y cwrs gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd. Os ydych dros 25 oed, yn ddi-waith ac â'r cymwysterau perthnasol, rydych yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol sy'n talu'r ffioedd hyfforddi ac yn cyfrannu tuag at gostau cynnal.**

Am wybodaeth bellach, ffurflenni cais neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:  
Geraint George, Rheolaeth Cefn Gwlad,  
Ysgol Astudiaethau Cymuned, Rhanbarth a Chyfathrebu,  
Prifysgol Cymru Bangor, BANGOR,  
Gwynedd LL57 2DG.

Ffon: (01248) 383649/383231 • Ffacs: (01248) 382189



# Plas Tan y Bwlch

*Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri*



**POB LLWYDDIANT I'R NATURIAETHWR**

Pam na ddewch i fwynhau:

**Cynhadledd Llên Gwerin, Cyrsiau Byd Natur, Sampleri Cymreig,  
Dilyn Ffyrdd Y Porthmyn, Cwrs Hanes, Chwarelyddiaeth, a.y.b.**

Croeso hefyd i Gymdeithasau ddod i dreulio gyda'r nos: cewch ymwled â'r gerddi, pryd o fwyd, darlith sleidiau. Gellir hefyd llogi ystafelloedd i gynnal cynhadleddau / cyfarfodydd.

Rhaglen a manylion pellach:

Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3YU.

Ffôn: 01766 590324. Ffacs: 01766 590274

Post T: [plastanybwlch@compuserve.com](mailto:plastanybwlch@compuserve.com)

**Dosberthir yn rhad i aelodau  
Cymdeithas Edward Llwyd  
Pris i'r cyhoedd £2.50**

**Cyhoeddir Y Naturiaethwr yn rhannol  
trwy gymhorthdal gan Gyngor Cefn  
Gwlad Cymru**

